



gwerth mewn gwahaniaeth
delivering on distinction

Datganiad Amgylcheddol Prosiect Morlais

Crynodeb Annhechnegol

Ymgeisydd: Menter Môn Morlais Cyf.
Cyfeirnod y Ddogfen: PB5034-ES-000
Crynodeb Annhechnegol
Awdur: Royal HaskoningDHV



Rhif Dogfen Morlais:
MOR/RHDHV/DOC/0103

Statws:
Terfynol

Rhif Fersiwn:
F3.0

Dyddiad:
Gorffennaf 2019

© 2019 Menter Môn

Cyhoeddi a rheolir y ddogfen hon gan:

Morlais, Menter Môn Cyfeiriad Cofrestredig: Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn, Cymru LL77 7LR, y DU

NI chaniateir gwneud copïau anawdurdodedig o'r ddogfen hon.

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 03160233 Dylid cyflwyno ceisiadau am gopïau ychwanegol i Brosiect Morlais

CYNNWYS

TABL ARGRAFFLUNIAU.....	IV
BYRFODDAU	V
TERMINOLEG.....	V
1. CYFLWYNIAD	1
1.1. YNGHYLCH Y DDOGFEN HON.....	1
1.2. Y PROSIECT.....	1
1.3. Y DATBLYGWR	2
1.4. YR ANGEN AM Y PROSIECT	2
1.5. YMGYNGHORI	3
1.6. PROSES YR EIA.....	4
1.7. RÔL POLISI A DEDDFWRIAETH YN Y BROSES BENDERFYNU.....	5
2. DISGRIFIAD O'R PROSIECT	7
2.1. TROSOLWG	7
2.2. DEWIS SAFLE AC ASESU DEWISIADAU ERAILL	8
2.3. GWAITH YN Y MÔR	10
2.4. GWAITH AR Y TIR.....	13
3. PYNCIAU A YSTYRIWYD YN YR ASESAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL.....	15
3.1. PENNOD 7: AMODAU METEOROLEGOL-EIGIONEGOL A PHROSES AU ARFORDIROL 15	
3.2. PENNOD 8: ANSAWDD DŴR MOROL A GWADDOD.....	16
3.3. PENNOD 9: ECOLEG FENTHIG A RHYNGLANW.....	17
3.4. PENNOD 10: ECOLEG PYSGOD A PHYSGOD CREGYN	19
3.5. PENNOD 11: ADAREG FOROL	20
3.6. PENNOD 12: MAMALIAID MOROL.....	21
3.7. PENNOD 13: ARCHAEOLEG YN Y MÔR A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL.....	22
3.8. PENNOD 14: PYSGODFEYDD MASNACHOL.....	23
3.9. PENNOD 15: MORGLUDO A MORDWYO.....	24
3.10. PENNOD 16: SEILWAITH MOROL A DEFNYDDWYR ERAILL	25
3.11. PENNOD 17: ADNODDAU DŴR A'R RISG O LIFOGYDD.....	25
3.12. PENNOD 18: AMODAU AR Y TIR A HALOGIAD	27
3.13. PENNOD 19: ECOLEG AR Y TIR	28
3.14. PENNOD 20: ARCHAEOLEG AR Y TIR A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL	29
3.15. PENNOD 21: SŴN A DIRGRYNIAD	30
3.16. PENNOD 22: ANSAWDD AER.....	31
3.17. PENNOD 23: TRAFFIG A THRAFNIDIAETH	32

3.18.	PENNOD 24: EFFAITH AR FORWEDD, TIRWEDD A'R OLYGFA.....	32
3.19.	PENNOD 25: CYMDEITHASOL-ECONOMAIDD, TWRISTIAETH A HAMDDEN.....	33
4.	CASGLIADAU	35
5.	CYSYLLTWCH Â NI	37

TABL ARGRAFFLUNIAU

Argrafflun 1-1 Dyfais Llanw Generig Enghreifftiol 1 – Dyfais llanw sy'n arnofio neu'n ymddangos uwchlaw wyneb y dŵr, yn cynnwys TEC, adeiledd cynnal, ceblau angori/cadwyni angori ac angorau/sylfeini.

.....	11
Argrafflun 1-2 Dyfais Llanw Generig Enghreifftiol 2 – Dyfais llanw colofn yng nghanol y dŵr, yn cynnwys TEC, adeiledd cynnal, ceblau angori/cadwyni angori ac angor/sylfeini. Noder: dangosir y ddyfais hon yn wynebu cyfeiriad llif y cerrynt.....	12
Argrafflun 1-3 Dyfais Llanw Generig Enghreifftiol 3 – Dyfais llanw wedi'i gosod ar wely'r môr, o dan wyneb y dŵr, gydag adeiledd cynnal TEC a sylfaen.....	12
Argrafflun 1-4 Darlun o TEC ag echel lorweddol (ar y chwith) a TEC ag echel fertigol (ar y dde)	13

BYRFODDAU

CRM	Modelu'r Risg o Wrthdaro
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CSYM	Cyngor Sir Ynys Môn
ECC	Coridor Cebiau Allgludo
EIA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
ERM	Modelu'r Gyfradd Gyfarfyddiadau
ES	Datganiad Amgylcheddol
FEED	Peirianeg a Dylunio Pen Blaen
HDD	Drilio Cyfeiriadol Llorweddol
Km	Cilometr
kV	Cilofolt
MDZ	Parth Arddangos Morlais
MW	Megawat
O&M	Gweithredu a Chynnal a Chadw
ODA	Ardal Ddatblygu ar y Tir
OfDA	Ardal Ddatblygu Yn y Môr
PDE	Amlen Ddylunio'r Prosiect
SEACAMS	Ehangu'r Sectorau Arfordirol a Morol Cymwysedig mewn Dull Cynaliadwy
SLVIA	Asesiad o'r Effaith ar Forwedd, Tirwedd a'r Olygfa
SoCG	Datganiad Tir Cyffredin
TEC	Trawsnewidyddion Ynni Llanw
TWAO	Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd
TWG	Gweithgor Technegol
UKC	Cliriad o dan y Cêl
UXO	Ordans heb Ffrwydro

TERMINOLEG

Adeilad Offer Switsio	Adeilad offer switsio ym Mharc Cybi.
Ail-bweru	Symud ymaith seilwaith tenant ar ddiwedd y cyfnod arddangos a rhoi seilwaith tenant newydd yno yn ei le.
Amlen Ddylunio'r Prosiect (PDE)	Y ffiniau y gellir disgrifio ehangder mwyaf posib y prosiect o ran deunyddiau, graddfa, amser a lleoliad oddi mewn iddynt. Weithiau cyfeirir at hyn fel 'Amlen Rochdale'.
Angorfa	Ardal neilltuedig o Barth Arddangos Morlais wedi'i phennu ar gyfer arddangos prosiect arae tenant penodol.
Arae	Grŵp o ddyfeisiau llanw wedi'u cysylltu â'i gilydd ac i gebl allgludo cyffredin.
Ardal Ddatblygu Yn Y Môr (OfDA)	Ardal gyfunol Parth Arddangos Morlais a'r Coridor Cebiau Allgludo.
Ardal Ddatblygu ar y Tir (ODA)	Yr ardal sy'n cynnwys lleoliad y lanfa rynglanw ym Mae'r Henborth, y llwybr byr ar gyfer cebiau ar y tir rhwng y lanfa a seilwaith is-orsaf y lanfa (hyd at ac yn cynnwys is-orsaf/ystafell reoli'r lanfa), a llwybr y cebiau ar y tir at yr is-orsaf cysylltiad grid.

Ardal y Ddyfais	Arwynebedd uwcholwg a ddefnyddir gan ddyfais llanw.
Ardal yr Arae	Yr ardal a ddefnyddir gan arae, gan gynnwys mannau gwag rhwng dyfeisiau.
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)	Proses statudol y mae'n rhaid ei dilyn er mwyn asesu prosiectau penodol cyn y gellir gwneud penderfyniad ffurfiol i fwrw ymlaen. Mae'n cynnwys casglu ac ystyried gwybodaeth amgylcheddol sy'n bodloni gofynion asesu'r Gyfarwydddeb EIA a'r Rheoliadau EIA, a chyhoeddi Adroddiad EIA.
Cebl Allgludo yr Arae	Cebl allgludo yn cysylltu arae o ddyfeisiau llanw i gynffon cebl allgludo, ac o'r fan honno i'r grid drwy seilwaith parhaol.
Cebiau Allgludo	Hyd at naw hyd o gebl yn dod o araeau ym Mharth Arddangos Morlais (MDZ), wedi'u cysylltu i gynffonau cebiau allgludo.
Cebiau ar y Tir	Y cebiau sy'n mynd â'r trydan o'r pwll trosglwyddo yn y lanfa i'r is-orsaf cysylltiad grid.
Cebiau Rhyng-arâe	Cebiau yn y môr sy'n cysylltu'r araeau â'i gilydd ac i'r platfformau trydanol yn y môr. Bydd y cebiau hyn yn cynnwys cebiau ffeibr optig.
Cliriad o dan y Cêl	Y pellter fertigol rhwng pwynt tanddwr dyfnaf corff cwch neu long a phwynt mwyaf bas gwely môr neu adeiledd tanddwr.
Cod Ymarfer Adeiladu	Dogfen yn rhoi manylion y prif egwyddorion ar gyfer adeiladu, protocolau contractwyr, mesurau rheoli amgylcheddol cysylltiedig ag adeiladu, mesurau atal llygredd, dewis technegau adeiladau priodol a phrosesau monitro.
Coridor Cebiau Allgludo	Y coridor y bydd y cebiau allgludo a'r cynffonau cebiau allgludo yn rhedeg drwyddo o safle Parth Arddangos Morlais i'r lanfa ym Mae'r Henborth.
Coridor Cebiau ar y Tir	Yr ardal lle bydd y cebiau ar y tir a'r seilwaith cysylltiedig, megis baeau cysylltu, wedi'u lleoli.
Cynffonau Cebiau Allgludo	Hyd at naw hyd o gebl a osodir o'r pwll trosglwyddo yn y lanfa at bwynt yn y môr ger y lan yng ngwely'r môr drwy Ddrilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) neu agor ffosydd.
Deunydd Diogelu Cebiau	Deunyddiau diogelu wedi'u gosod yn strategol ar rannau o'r cebl allgludo, cynffonau cebl allgludo a cheblau rhyng-arâe, i'w cadw yn eu lle ar wely'r môr.
Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD)	Dull o osod cebiau lle mae'r cebl yn cael ei ddrilio o dan nodwedd heb fod angen agor ffosydd.
Dyfais Llanw	Mae un uned gyfan yn cynnwys: Trawsnewidydd(ion) Ynni Llanw (h.y. rotorau a nasél), sylfeini, adeiledd cynnal.
Dylanwad Cronnol	Dylanwad o ganlyniad i newidiadau yn sgil gweithredoedd eraill yn y gorffennol neu'r presennol, neu rai y gellir eu rhagweld yn rhesymol, ynghyd â Phrosiect Morlais.
Effaith	Term a ddefnyddir i fynegi canlyniad dylanwad. Caiff arwyddocâd effaith ei bennu drwy edrych ar y gydberthynas rhwng maint y dylanwad a phwysigrwydd, neu sensitifrwydd, y derbynnydd neu'r adnodd yn unol â meini prawf arwyddocâd ddiffiniedig.
Effeithiau Cronnol	Effaith Prosiect Morlais wedi'i chyfuno ag effeithiau nifer o brosiectau, ar yr un derbynnydd/adnodd.
Ehangylch	Arwynebedd trawstoriadol y Trawsnewidydd Ynni Llanw yn berpendicwlar i lif y cerrynt.

Glanfa	Y man (o'r Cymedr Distyll Gorllanw) lle byddai'r ceblau allgludo yn y môr yn cysylltu â'r tir ac yn cysylltu â'r ceblau ar y tir.
Gweladwy iawn	Pan fo cyfran fawr o adeiledd cynnal dyfais llanw yn weladwy uwchlaw'r dŵr i'r graddau ei fod yn weladwy iawn, ynghyd ag elfennau ategol, megis goleuadau llywio, rheiliau a hwylbren.
Hwb	Seilwaith trydanol a ddefnyddir i gysylltu dwy neu ragor o ddyfeisiau llanw o fewn arae.
Is-barth	Rhan o Barth Arddangos Morlais y caniateir gosod mathau diffiniedig o ddyfeisiau llanw ynddi.
Is-orsaf	Amgaea yn cynnwys offer trydanol sy'n ei gwneud hi'n bosib cysylltu i'r rhwydwaith trydan presennol. Mae hwn hefyd yn cynnwys offer i helpu i gynnal foltedd grid sefydlog.
Is-orsaf Cyswllt Grid	Is-orsaf sy'n cysylltu â'r Grid yn Orthios.
Is-orsaf y Lanfa	Is-orsaf yn y lanfa yn Nhŷ-Mawr
Llenyddiaeth lwyd	Deunyddiau ac ymchwil a gynhyrchir gan sefydliadau y tu allan i'r sianeli cyhoeddi a dosbarthu masnachol neu academaidd traddodiadol. Mae adroddiadau, papurau gwaith, dogfennau gan y llywodraeth, papurau gwyn a gwerthusiadau yn fathau cyffredin o lenyddiaeth lwyd.
Math o Ddyfais	Dull o grwpio dyfeisiau llanw sydd â nodweddion tebyg. Er enghraifft, grwpio ar sail natur technoleg y Trawsnewidydd Ynni Llanw (TEC), neu grwpio ar sail lleoliad a graddfa'r ddyfais llanw tra bo'n gweithredu - heb ystyried y math o TEC a ddefnyddir.
Nasél	Amgaead lle mae'r holl gydrannau cynhyrchu mewn TEC, gan gynnwys y generadur, y gerbocs, y system yriant a'r cydosodiad brecio wedi'u lleoli.
Ôl-troed	Arwynebedd dyfais llanw sydd mewn cysylltiad corfforol â gwely'r môr.
Parth Arddangos Morlais (MDZ)	Wedi'i ddiffinio gan ffin Prydles Ystâd y Goron, yr ardal lle bydd y dyfeisiau/araeau llanw yn cael eu gosod, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig - megis ceblau rhyng-arâe, ceblau allgludo, bwiau marcio, offer monitro safle a chysylltiadau trydanol i'r ceblau allgludo. Ardal yn y môr o 35km ² lle bydd y Prosiect yn gosod araeau o ddyfeisiau llanw a seilwaith cysylltiedig.
Parth Diogelwch	Ardal forol wedi'i datgan at ddibenion diogelwch o amgylch gosodiad neu waith/ardal adeiladu ynni adnewyddadwy o dan Ddeddf Ynni 2004, Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu yn y môr) (Parthau Diogelwch) (Gweithdrefnau Gwneud Cais a Rheoli Mynediad) 2007 a Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992.
Pwll Trosglwyddo	Adeileddau tanddaearol yn y lanfa ac yn yr is-orsaf cysylltiad grid lle mae'r uniadau rhwng rhannau ceblau allgludo sydd mewn ffosydd a rhai sydd heb fod mewn ffosydd wedi'u lleoli.
Pyllau Cysylltu	Adeileddau tanddaearol wedi'u gosod â bylchau rheolaidd rhyngddynt ar hyd y llwybr ceblau ar y tir i uno rhannau o geblau a hwyluso'r gwaith o osod y ceblau mewn pibelli wedi'u claddu yn y ffordd.
Seilwaith Yn Y Môr	Yr holl seilwaith yn y môr, gan gynnwys dyfeisiau llanw, sylfeini neu angorau, ceblau rhyng-arâe, hybiau, ceblau allgludo, cynffonau ceblau allgludo a deunydd diogelu ceblau.

Seilwaith y Tenant	Dyfeisiau llanw, hybiau, ceblau rhyng-arâe, deunydd diogelu ceblau, llwyfannau monitro / bwiau a bwiau marcio. Gall hefyd gynnwys ceblau allgludo.
Tenant / Datblygwr	Cwmni neu sefydliad sy'n dod i gytundeb gyda Menter Môn i osod dyfeisiau llanw ym Mharth Arddangos Morlais.
Trawsnewidydd Ynni Llanw (TEC)	Dyfais sy'n trawsnewid egni cinetig ac egni potensial a geir mewn dŵr llanw sy'n symud, yn drydan.
Ymgeisydd	Menter Môn Morlais Cyf.

1. CYFLWYNIAD

1.1. YNGHYLCH Y DDOGFEN HON

1. Y ddogfen hon yw'r Crynodeb Annhechnegol (NTS) o'r Datganiad Amgylcheddol (ES) ar gyfer prosiect arfaethedig Morlais (y cyfeirir ato o hyn allan fel 'y Prosiect'). Mae'n rhoi crynodeb o'r Prosiect, y broses ar gyfer dewis safle a phrif ganfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA).
2. Mae'r NTS yn ddogfen annibynnol, a'i nod yw defnyddio iaith annhechnegol, lle bo hynny'n bosib, i ddisgrifio'r cefndir a'r angen am y Prosiect arfaethedig. Mae'n disgrifio'r cynllun arfaethedig, yr amodau amgylcheddol sylfaenol, a'r mesurau lliniaru a argymhellir sydd i'w rhoi ar waith er mwyn atal neu leihau effeithiau niweidiol sylweddol.
3. Mae'r NTS yn crynhoi'r Datganiad Amgylcheddol ac, er bod ei fformat fwy neu lai'r un fath â fformat y Datganiad Amgylcheddol, mae rhai newidiadau wedi cael eu gwneud er mwyn cynnig crynodeb sy'n haws ei ddarllen ac yn fwy cryno. Mae ffigyrau wedi'u cynnwys er mwyn egluro pwyntiau neu nodweddion penodol.
4. Mae'r adran hon o'r NTS (**Adran 1**) yn cyflwyno'r Prosiect, ac mae **Adran 2** yn rhoi rhagor o fanylion ar y disgrifiad o'r prosiect.
5. Mae **Adran 3** yn crynhoi effeithiau rhagweledig y Prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd ffisegol, ecolegol a dynol yn y môr ac ar y tir, yn rhoi manylion yr effeithiau cadarnhaol a niweidiol posib ac yn rhoi i'r darlennydd ddealltwriaeth o'r ffordd y sefydlwyd yr effeithiau hyn. Mae pob un o'r effeithiau rhagweledig a'r mesurau lliniaru wedi'u cyflwyno mewn tabl crynhoi (**Pennod 27, Crynodeb** yng **Nghyfrol I** y Datganiad Amgylcheddol).
6. Yn olaf, mae **Adran 4** yn cyflwyno casgliadau cyffredinol proses yr EIA.

1.2. Y PROSIECT

7. Mae'r Prosiect yn cael ei ddatblygu gan Menter Môn Morlais Limited (Menter Môn), sef yr ymgeisydd, sy'n gwmni menter gymdeithasol dielw. Ar ôl cael caniatâd, bydd gan y Prosiect y capasiti i gynhyrchu hyd at 240 MW drwy lif llanw.
8. Mae'r Prosiect wedi'i leoli yn un o'r llawero barthau arddangos ynni morol a geir o gwmpas arfordir y Deyrnas Unedig (DU). Gosodwyd y rhain ar brydles am 45 mlynedd gan Ystad y Goron yn 2014 i geisio annog a chyflymu datblygiad y diwydiant ynni morol. Parth Arddangos Gorllewin Môn (WADZ) yw lleoliad y Prosiect. Dewiswyd y parth hwn oherwydd yr adnodd llif llanw yno. Mae Ystad y Goron wedi penodi Menter Môn yn rheolwr y WADZ. Yn y Datganiad Amgylcheddol hwn, cyfeirir at y WADZ fel Parth Arddangos Morlais (MDZ).
9. Yn dilyn asesiad o ddosbarthiad yr adnoddau llif llanw yn yr MDZ, yn 2015, gofynnodd Menter Môn i Ystad y Goron a fyddai'n bosib symud yr MDZ i'r gogledd, er mwyn gallu manteisio'n well ar y prif ardaloedd llif llanw sylweddol i'r gorllewin o Ynys Môn. Ymgynghorodd Menter Môn â rhanddeiliaid ynghylch y cynnig i symud ac fe gymeradwyodd Ystad y Goron y newid yn 2016.

10. O'i ddatblygu, bydd y Prosiect yn darparu parth arddangos technoleg llanw cytunedig, wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer gosod ac arddangos ar raddfa fasnachol sawl arae o ddyfeisiau ynni llanw. Bydd y Prosiect yn cynnwys seilwaith cyffredin ar gyfer datblygwyr technoleg llanw, yn darparu llwybr a fydd yn cael ei rannu at gysylltiad grid lleol drwy naw chynffon cebl allgludo, is-orsaf glanfa ar y tir, a llwybr ceblau trydan ar y tir at gysylltiad grid drwy is-orsaf cysylltiad grid.
11. Awdurdodir y Prosiect drwy'r prif ddulliau cydsynio canlynol:
 - Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd o dan Ddeddf Trafnidiaeth Gweithfeydd 1992; a
 - Trwydded Forol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA).

1.3. Y DATBLYGWR

12. Caiff y gwaith o ddatblygu'r MDZ ei arwain gan Menter Môn, a gafodd gyllid drwy Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (UE) sydd wedi'i flaenoriaethu ar gyfer ynni morol yng Nghymru. Mae Menter Môn yn fenter gymdeithasol trydydd sector, dielw. Mae'n darparu prosiectau datblygu economaidd-gymdeithasol ledled gogledd Cymru. Rôl alluogi sydd gan Menter Môn yn y Prosiect ac nid yw'n gweithredu fel datblygwr technoleg.
13. Y cymhelliant tu ôl i'r Prosiect i Menter Môn yw'r cyfle i fod yn sefydliad cymunedol sydd wrth galon arloesi ym maes ynni adnewyddadwy, a sefydlu Ynys Môn fel canolbwynt ar gyfer ynni morol, gan sicrhau'r gwerth ychwanegol gorau posib ar gyfer y gymuned a'r economi leol.
14. Y bwriad wrth ddylunio llawer o seilwaith y Prosiect fydd sicrhau cymaint â phosib o gynnwys lleol a datblygu sgiliau pobl leol, gyda gwerth cymdeithasol (gan gynnwys is-gontractau) yn ystyriaeth bwysig yn y strategaeth gaffael. Wrth ddatblygu'r strategaeth gaffael, bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i ddod o hyd i gyflenwyr a chontractwyr lleol i ymgymryd â phob contract.
15. Mae Menter Môn wedi pennu'r amcanion canlynol ar gyfer y Prosiect:
 - Cynhyrchu adnoddau / incwm ariannol hirdymor i'w (h)ailfuddsoddi mewn prosiectau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, i gefnogi'r gymuned ehangach.
 - Datblygu sgiliau pobl leol;
 - Denu buddsoddiad i'r ardal;
 - Dod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer technolegau llif llanw;
 - Darparu cyfleuster o'r radd flaenaf ar gyfer datblygu technoleg llif llanw;
 - Gwarchod yr amgylchedd; a
 - Sicrhau cyflenwad ynni gynaliadwy ar gyfer yr ardal.

1.4. YR ANGEN AM Y PROSIECT

16. Mae'r newid hinsawdd yn broblem fyd-eang sy'n ganlyniad i ryddhau allyriadau carbon i'r atmosffer oherwydd gweithgarwch pobl. Mae cynhyrchu a defnyddio ynni o ffynonellau carbon isel, cynaliadwy, megis ynni llif llanw, yn un o'r atebion sydd ar gael i allu lleihau allyriadau carbon yn sylweddol. Mae hefyd yn mynd i'r afael â'r her o fodloni'r galw am ynni fel rhan o

bortffolio ynni cytbwys. Trafodir y targedau ar gyfer lleihau CO₂ a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy ymhellach ym **Mhennod 2, Polisi a Deddfwriaeth yng Nghyfrol I** y Datganiad Amgylcheddol).

17. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod gofyniad ar Lywodraeth Cymru i leihau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80% erbyn y flwyddyn 2050. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Carbon Isel newydd, sydd â'r nod o gyrraedd targedau i sicrhau twf glân, gwarchod yr amgylchedd a sicrhau cymdeithas iachach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae sicrhau llwybr carbon isel ar gyfer Cymru yn gam pwysig tuag at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru.
18. Ym mis Mehefin 2019, ymrwymodd Llywodraeth y DU (a Llywodraeth Cymru) i darged allyriadau newydd ar gyfer y DU, sef lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero-net erbyn 2050. Mae ynni llif llanw yn ffynhonnell ynni glân, adnewyddadwy a hynod ragweladwy. Yn ôl yr UE, mae gan ynni llif llanw ac, yn ehangach, ynni morol (llanw a thonau gyda'i gilydd) y potensial i gyfrannu'n sylweddol at leihau'r newid yn yr hinsawdd ac at amcanion economaidd-gymdeithasol a sicrhau ynni. Byddai'r Prosiect, felly, yn cyfrannu at leihad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.
19. Drwy ganiatáu i wahanol dechnolegau ac araeau bychain o ddyfeisiau llanw gael eu harddangos ar raddfa fasnachol, mae'r Prosiect yn gam pwysig yn y gwaith o ddatblygu'r diwydiant ynni llif llanw yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae hefyd yn dod â'r potensial o fuddion economaidd-gymdeithasol sylweddol (gweler **Pennod 25, Economeg Gymdeithasol, Twristiaeth a Hamdden yng Nghyfrol I** y Datganiad Amgylcheddol) ac yn cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwell sicrwydd o ran cyflenwad ynni. Bydd gan y Prosiect gapasiti gosodedig o hyd at 240 MW, sy'n ddigon i gyflenwi trydan i swm cyfwerth â dros 180,000 o gartrefi. I roi hyn mewn cyd-destun, mae tua 30,600 o gartrefi ar Ynys Môn, 52,500 yng Ngwynedd a 51,200 yng Nghonwy.
20. Bydd datblygu'r Prosiect yn cefnogi'r amcanion yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2017 sy'n ceisio hyrwyddo datblygiad technolegau adnewyddadwy neu garbon isel (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, 2017). Bydd y Prosiect yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib ar gyfer cymunedau lleol - yn uniongyrchol drwy gyflogaeth ac yn anuniongyrchol drwy sefydlu cadwyn gyflenwi leol.

1.5. YMGYNGHORI

21. Mae Menter Môn yn cydnabod bod ymgynghori effeithiol ac ystyrlon yn rhan hanfodol o'i gweithgareddau datblygu ac mae wedi ymrwmo i sicrhau dull agored a thryloyw o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Roedd yr holl gylchlythyrau a gynhyrchwyd i hysbysebu digwyddiadau ymgynghori yn ddwyieithog, ac roedd mynychywr yn medru cyfathrebu mewn Cymraeg a Saesneg gyda cynrychiolwyr y prosiect.
22. Drwy ymgysylltu'n gynnar â chymunedau lleol, awdurdodau lleol ac ymgynghoreion statudol, y nod yw sicrhau'r manteision cyffredin canlynol:

- Caniatáu i'r cyhoedd ddylanwadu ar y ffordd y bydd y Prosiect yn cael ei ddatblygu a'i integreiddio yn y gymuned, drwy roi adborth i dîm datblygu Morlais ar opsiynau posib;

- Helpu pobl leol a rhanddeiliaid i ddeall yn well beth mae'r Prosiect yn ei olygu iddyn nhw;
- Cael gwybodaeth bwysig ynghylch effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Prosiect - gan helpu Morlais i weld mor fuan â phosib pa rai o opsiynau'r Prosiect sy'n anaddas.
- Caniatáu i fesurau lliniaru posib gael eu hystyried a, lle bo'n bosib, eu cynnwys yn y Prosiect cyn cyflwyno'r cais; a
- Chanfod ffyrdd newydd y gallai'r Prosiect gefnogi amcanion strategol a/neu leol ehangach.

23. Aethpwyd ati i ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i drafod â grwpiau defnyddwyr, cymunedau ac unigolion y mae posibilrwydd y bydd y Prosiect yn effeithio arnynt. Darparwyd i'r grwpiau hyn fanylion y Prosiect, esboniad o broses yr EIA a throsolwg o astudiaethau ac arolygon a oedd yn cael eu cynnal. Roedd y broses hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer mynegi barn, rhannu gwybodaeth a chael adborth gan randdeiliaid.
24. Mae gwaith ymgynghori â chymunedau, rhanddeiliaid, tirfeddianwyr a chyrrff statudol wedi digwydd ers dyfarnu'r Cytundeb Prydlesu i Menter Môn ym mis Gorffennaf 2014. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghori hyd yma fel sail i'r dull ar gyfer pob asesiad, yn ogystal â'r dewisiadau eraill a ystyriwyd a'r broses o ddewis safle.
25. Cyflwynwyd adroddiadau cwmpasu yn 2015 a 2017 i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a Chyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i gefnogi fersiynau cynharach (capasiti is) o'r Prosiect. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r adroddiadau hynny, mae capasiti gosodedig arfaethedig y Prosiect wedi cynyddu mewn ymateb i'r galw gan y diwydiant, ac mae'r Prosiect bellach yn ceisio caniatâd am gapasiti hyd at 240 MW.
26. Cyflwynwyd cais arall am farn gwmpasu, ar gyfer y Prosiect capasiti 240 MW cyfredol, i Lywodraeth Cymru a CNC ym mis Ebrill 2018, ac mae hwnnw'n disodli'r ceisiadau blaenorol am farn gwmpasu. Darparodd Llywodraeth Cymru a CNC farn gwmpasu fanwl, a ddefnyddiwyd fel man cychwyn ar gyfer yr ymgynghori ar y Prosiect. Mae ymgynghori parhaus wedi bod â Llywodraeth Cymru a CNC drwy gydol yr EIA, er mwyn helpu i ddatblygu a bwydo gwybodaeth i EIA y Prosiect, pennu cwmpas a ffiniau dylunio, ac i gytuno ar fethodoleg a dulliau gweithredu ar gyfer arolygon amgylcheddol a phynciau i'w hystyried yn ystod yr EIA (gweler **Pennod 6, Ymgynghori yng Nghyfrol I** y Datganiad Amgylcheddol).
27. Mae Menter Môn wedi datblygu Adroddiad Ymgynghori sy'n nodi'r ymgysylltu ac ymgynghori a ddigwyddodd cyn cyflwyno'r cais ar gyfer y Prosiect, sydd efyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch buddiannau statudol ac anstatudol.

1.6. PROSES YR EIA

28. Ar gyfer pob pwnc, mae disgrifiad manwl o'r llinell sylfaen gyfredol wedi'i sefydlu drwy gyfuniad o astudiaethau desg, ymgynghori ac amrywiaeth o arolygon a gomisiynwyd i fwydo i'r EIA.
29. Nodwyd pob un o effeithiau posib adeiladu, gweithredu, ail-bweru a datgomisiynu'r Prosiect, ac aseswyd difrifoldeb pob effaith bosib.

30. Lle nodwyd effeithiau amgylcheddol sylweddol, cynigiwyd mesurau lliniaru i osgoi effeithiau neu eu lleihau i lefel dderbyniol.
31. Mae'r broses hefyd yn ystyried:
- Cydberthynas, lle mae effaith ar un derbynnydd yn gallu cael effaith ddilynol ar un arall (er enghraifft, gall effaith ar boblogaeth pysgod arwain at lai o ysglyfaethau ar gyfer adar a mamaliaid morol);
 - Dylanwadau cronol, lle bydd y prosiect yn cael ei ystyried ochr yn ochr â dylanwadau rhagweledig prosiectau adeiladu mawr eraill yn yr ardal gyfagos (er enghraifft, fferm wynt yn y môr neu ddatblygiad ffordd); ac
 - Effeithiau trawsffiniol, lle mae'n bosib y bydd effaith ar wledydd eraill (er enghraifft llwybrau llongau a gweithgareddau pysgota).
32. Rhan hanfodol o unrhyw EIA yw diffinio disgrifiad y prosiect yn erbyn yr effeithiau a fydd yn cael eu hasesu. Oherwydd natur y Prosiect a natur esblygol y sector ynni llif llanw, nid yw'n bosib rhoi manylion llawn, digyfnewid, ar gyfer elfen alltraeth y datblygiad arfaethedig ar adeg cyflwyno'r cais. Er enghraifft, mae'r dyfeisiau llanw a fydd yn cael eu gosod yn dibynnu ar broses ar gyfer dewis is-barth, ac mae'r dull gosod manwl yn dibynnu ar y math o ddyfais llanw ac argaeledd/caffael cychod neu longau adeg gosod. Felly, mae'r disgrifiad o'r prosiect a dulliau'r prosiect, y mae'r cais hwn am ganiatâd yn seiliedig arnynt, yn perthyn i ystod o feini prawf diffiniedig - amlen o ddatblygiad posib - sy'n disgrifio graddau a natur bosib y datblygiad. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu ar gyfer elfen o hyblygrwydd o ran pennu manylion penodol terfynol y Prosiect, ond yn parhau i fodloni gofynion proses yr EIA. Gelwir y dull hwn yn ddull Amlen Ddylunio'r Prosiect (PDE) ac, yn aml, cyfeirir ato fel dull 'Amlen Rochdale'.
33. Mae'r dull PDE yn diffinio cyfres o raddau a meintiau mwyaf posib ar gyfer y disgrifiad o'r datblygiad (sef yr amlen), y bydd ei effeithiau yn cael eu hasesu. Fel hyn, bydd 'sefyllfa waethaf bosib', realistig yn cael ei hasesu. Ar ôl cael caniatâd, gall dyluniad manwl o'r cynllun amrywio o fewn yr amlen honno a'r ffiniau a aseswyd, heb beri i'r EIA fod yn anghymwys. Drwy ddefnyddio'r dull hwn, gall y Datganiad Amgylcheddol ddod i'r casgliad na fydd effaith amgylcheddol y Prosiect yn fwy na'r hyn a nodir yn y Datganiad Amgylcheddol ac y gallai fod yn llai na hynny.

1.7. RÔL POLISI A DEDDFWRIAETH YN Y BROSES BENDERFYNU

34. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi'r sbardunau ac ymrwymadau polisi a deddfwriaethol Cenedlaethol ac Ewropeaidd mewn meysydd yn ymwneud â newid hinsawdd ac ynni sy'n berthnasol i'r Prosiect. Mae pob pwnc technegol yn y Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio sut y bydd datblygiad y Prosiect yn cydymffurfio â gofynion polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol, cynlluniau lleol a chanllawiau technegol.
35. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn ystyried y brif ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Menter Môn yn cynnal asesiad yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ar gyfer y Prosiect.

36. Mae datblygwyr y Prosiect hefyd yn awyddus i gynyddu cyfleoedd gwaith a datblygu economaidd, a sicrhau bod mwy o amrywiaeth ohonynt, ar draws y cymunedau. Ni fydd y Prosiect yn cael unrhyw effaith anffafriol sylweddol ar iechyd a llesiant, a disgwylir iddo gael ychydig o effaith lesol ar nifer o dderbynyddion. Bydd y Prosiect hefyd yn cynyddu gallu Menter Môn i ddatblygu rhagor o brosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol.
37. Mae pob pennod dechnegol yn y Datganiad Amgylcheddol hefyd yn darparu manylion am bolisiâu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI) Ynys Môn a Gwynedd ac yn dangos ble rhoddwyd sylw i'r rhain.
38. Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu gan y Llywodraeth ac maent yn cynnwys amcanion y Llywodraeth ar gyfer datblygu prosiectau mewn sector penodol. Mae'r rhai sy'n berthnasol i'r Prosiect, e.e. y Datganiad Polisi Morol (MPS), Polisi Cynllunio Cymru (PPW) a Chynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru (WNMP) yn rhoi rhesymau dros y polisi y mae'r datganiad yn cyfeirio ato ac maent yn cynnwys esboniad o'r ffordd y mae'r polisi yn rhoi ystyriaeth i bolisi'r Llywodraeth mewn perthynas â lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i bolisiâu penodol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy graddfa fwy fel mesur arfer dda ar gyfer Prosiect Morlais.
39. Mae'r MPS yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy morol ac mae'n awgrymu y gellid defnyddio rhaglenni monitro manwl a mentrau ymchwil cydgysylltiedig i gefnogi dulliau addasu a lliniaru ar gyfer y technolegau hyn, gan gynnwys ar ôl gosod y dyfeisiau. Mae Menter Môn yn dilyn y dull hwn, gyda'r bwriad o ddarparu cynllun lliniaru a monitro amgylcheddol manwl.
40. Mae'r PPW yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
41. Mae'r WNMP drafft yn amlinellu'r agweddau canlynol y dylai Menter Môn fod yn ymgymryd â nhw i sicrhau bod y Prosiect yn cydymffurfio â'r cynllun
- Ymgysylltu'n gynnar ar draws a rhwng rhanddeiliaid;
 - Cymhwyso'r polisiâu trawsbynciol cyffredinol a sector-benodol sydd yn y cynllun i lywio cynigion;
 - Ystyried effeithiau llesol a niweidiol posib eu gweithgarwch arfaethedig ar yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd; lleihau effeithiau niweidiol i'r eithaf a sicrhau cynifer â phosib o gyfleoedd i gydfodoli a dod â buddion lluosog;
 - Darparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r awdurdodau lleol perthnasol asesu eu cynnig/cynigion, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â pholisi cynllunio perthnasol; a
 - Sicrhau bod y dystiolaeth a ddarperir yn gadarn a chymesur yng nghyswllt y datblygiad dan sylw a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef.

2. DISGRIFIAD O'R PROSIECT

2.1. TROSOLWG

42. Bydd y Prosiect yn darparu ardal gytunedig ar gyfer gosod ac arddangos ar raddfa fasnachol sawl arâe o ddyfeisiau ynni llanw, hyd at gapasiti gosodedig mwyaf o 240 Megawat (MW) Bydd y Prosiect hefyd yn darparu seilwaith cyffredin ar ffurf seilwaith trydanol, gan gynnwys is-orsafoedd a llwybr ceblau trydan ar y tir at gysylltiad i'r grid. Bydd y Prosiect yn darparu'r seilwaith trydanol cefnogol i gysylltu trawsnewidyddion ynni llanw (TECs) o fewn yr MDZ ac allgludo'r trydan a gynhyrchir i'r grid.
43. Mae'r Prosiect yn cynnwys dwy ardal ddatblygu, fel a ganlyn:
- Ardal Ddatblygu yn y môr: gan gynnwys pob ardal rynglanw a morolr lle caniateir gosod seilwaith yn y môr ac yn cwmpasu'r MDZ (ardal 35 km²), a choridor y ceblau allgludo (ardal 4.75 km²). Dangosir yr Ardal Ddatblygu yn y Môr yn **Ffigur 2-1 (Cyfrol II y Datganiad Amgylcheddol)**.
 - Ardal Ddatblygu ar y Tir: gan gynnwys pob ardal rynglanw ac ar y tir lle caniateir gosod seilwaith (ardal 1 km²). Dangosir yr Ardal Ddatblygu ar y Tir yn **Ffigur 2-2 (Cyfrol II y Datganiad Amgylcheddol)**.
44. Ar ôl cael caniatâd, dyrennir lleoliadau neu "angorfeydd" o fewn yr MDZ i ddatblygwyr dyfeisiau llanw. O fewn yr angorfeydd byddant yn gallu gosod unrhyw beth, o un ddyfais i araeau o ddyfeisiau llanw lluosog.
45. Fel parth arddangos masnachol rhag-gytunedig â chysylltiad i'r grid, caniateir gosod nifer o wahanol ddyfeisiau llanw a ffurfweddau arâe ym mharth y Prosiect yn ystod 37 mlynedd ei oes. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys yr amser sydd ei angen ar gyfer adeiladu, comisiynu, ail-bweru a datgomisiynu.
46. Mae ail-bweru yn golygu gosod arâe o ddyfeisiau llanw yn lle arâe arall o ddyfeisiau llanw. Fel arfer gosodir technoleg wahanol, fwy newydd neu/a diweddar. Bydd hyd y cyfnodau y bydd araeau yn eu lle yn amrywio; felly, gellir dyrannu angorfeydd sawl gwaith yn ystod oes y Prosiect. Wrth i un angorfa gael ei thynnu, bydd ei chapasiti yn y Prosiect yn dod ar gael, a bydd arâe newydd yn cael ei gosod, naill ai yn yr un angorfa neu mewn lleoliad arall.
47. Mae prif gydrannau'r gwaith yn y môr sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn cynnwys:
- Dyfeisiau Llanw, Trawsnewidyddion Ynni Llanw (TEC) a cheblau rhyng-arâe yn yr MDZ (gweler **Adran 2.3.1** am drosolwg o adeileddau dyfeisiau llanw);
 - Hyd at naw chynffon cebl allgludo (a rennir â chydannau ar y tir);
 - Offer monitro amgylcheddol a mordwyol;
 - Adeileddau sylfaen ac angori; a
 - Seilwaith trydanol yn y môr, gan gynnwys hybiau tanddwr, arnofiol neu rai sy'n ymddangos uwchlaw'r wyneb.

48. Mae prif gydrannau'r gwaith ar y tir sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn cynnwys:

- Gwaith glanfa geblau, gan gynnwys:
 - Hyd at naw pibell HDD neu rai cyfatebol mewn ffosydd,
 - Hyd at naw pwll neu fae trosglwyddo, a
 - Hyd at naw cynffon cebl allgludo (a rennir â chydannau yn y môr);
- Is-orsaf yn y lanfa yn Nhŷ-Mawr (y cyfeirir ato o hyn allan fel Is-orsaf y Lanfa);
- Adeilad offer switsio ym Mharc Cybi (y cyfeirir ato o hyn allan fel yr Adeilad Offer Switsio);
- Is-orsaf cyswllt grid yn y Parc Eco sydd eisoes yn bodoli yn Orthios i'r dwyrain o Gaergybi (safle hen waith Alwminiwm Môn) (y cyfeirir ato o hyn allan fel yr Is-orsaf Cyswllt Grid);
- Llwybr ceblau ar y tir rhwng Is-orsaf y Lanfa, yr Adeilad Offer Switsio a'r Is-orsaf Cyswllt Grid;

2.2. DEWIS SAFLE AC ASESU DEWISIADAU ERAILL

2.2.1. Parth Arddangos Morlais

49. Yn 2010, sefydlodd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) raglen Ynys Ynni Môn, sef ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, er mwyn rhoi Ynys Môn ar y blaen o ran ymchwil, datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel, gan ddod â buddion economaidd a allai fod yn enfawr. Roedd astudiaeth ddichonoldeb a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) (Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Rhaglen Ynni Morol - Rhaglen i Ddatblygu'r Sector Ynni Morol 2013) yn disgrifio'r sector ynni morol fel *"cyfle pwysig ar gyfer twf economaidd trawsnewidiol"* i ogledd Cymru, ac roedd yn cydnabod pwysigrwydd *"cefnogi ac annog datblygiad sgiliau morol a chapasiti'r gadwyn gyflenwi yn lleol...i greu effeithiau a buddion cadarnhaol ar gyfer y rhanbarth."*
50. Mae gan Menter Môn bresenoldeb lleol cryf ar Ynys Môn, a brwdfrydedd ynghylch datblygu ynni carbon isel ar yr Ynys, a chynyddu ac ehangu amrywiaeth cyfleoedd gwaith a datblygu economaidd.
51. Ychydig ar ôl eu penodi'n rheolwyr yr MDZ, dechreuodd Menter Môn ar y broses ar gyfer lleoli, dylunio a mireinio'r Prosiect. Arweiniodd y cam cyntaf at symud yr MDZ i'r gogledd, i gynnwys ardal lle'r oedd yr adnodd llanw yn fwy.
52. Mae'r MDZ wedi cael ei rannu, am y tro, yn wyth is-barth neilltuol. Dylai bod gan bob is-barth y potensial i gael ei ddatblygu i roi hyd at 30 MW o gapasiti gosodedig ar sail argaeledd adnoddau a lle ar gyfer gosod. Fodd bynnag, bydd capasiti gosodedig bob parth yn y pen draw yn amrywio yn ôl natur cyfyngiadau amgylcheddol, gofynion posib o ran camau gosod ac anghenion datblygwyr dyfeisiau llanw penodol. Bwriad Amlen Ddylunio'r Prosiect yw cynrychioli sefyllfa waethaf realistig, sy'n cynnwys y technolegau sydd fwyaf tebygol o gael eu gosod, ar gapasiti ac mewn lleoliad sy'n realistig.
53. Mae'r broses gychwynnol a manwl ar gyfer dewis safle wedi rhoi sylw i ystyriaethau a chyfleoedd amgylcheddol, ffisegol, technegol, masnachol a chymdeithasol, yn ogystal â gofynion peirianeg. Mae Menter Môn hefyd wedi ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid, cymunedau a

thirfeddianwyr cyn cyflwyno'r cais, er mwyn mireinio dyluniad terfynol y Prosiect, ac i rannu gwybodaeth ynghylch y penderfyniadau a wnaed er mwyn cyflawni'r gwaith mireinio.

54. Y nod oedd canfod lleoliadau a methodolegau a fydd yn dderbyniol o safbwynt amgylcheddol, ond hefyd yn gyraeddadwy o safbwynt technegol ac ariannol. Sefydlwyd tîm dylunio amlddisgyblaethol i gyflawni'r broses ar gyfer dewis safle. Roedd y tîm hwn yn cynnwys ymgynghorwyr peirianeg ac EIA.

2.2.2. Technoleg Dyfeisiau Llanw

55. Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r technolegau a mathau o ddyfeisiau sydd â photensial realistig o gael eu gosod yn yr MDZ. Un o brif amcanion yr adolygiad hwn oedd caniatáu i Amlen Ddylunio'r Prosiect gael ei diffinio i gwmpasu ystod realistig o dechnolegau a dyfeisiau llanw. O ganlyniad, mae'r dyfeisiau a fydd yn cael eu cynnwys yn Amlen Ddylunio'r Prosiect wedi cael eu rhannu i dri chategori: dyfeisiau wedi'u gosod ar wely'r môr, dyfeisiau colofn yng nghanol y dŵr a dyfeisiau sy'n arnofio neu ymddangos uwchlaw wyneb y dŵr.
56. Y bwriad yw ceisio cael amlen ganiatâd eang ar gyfer y Prosiect. Bydd yr amlen yn cwmpasu ystod o dechnolegau a mathau o ddyfeisiau llanw sydd â'r potensial i gael eu gosod a'u gweithredu fel rhan o'r Prosiect. Drwy'r dull hwn, bydd modd defnyddio amrywiaeth o dechnolegau sydd ar gael ar hyn o bryd, yn ogystal â datblygu dyluniadau dyfeisiau llanw dros amser. Fodd bynnag, cyfyngwyd ar yr ystod a'r hyblygrwydd dan sylw yn y cais am ganiatâd drwy roi ystyriaeth ofalus i senarios datblygu a ddyluniwyd i resymoli'r dull tebygol ar gyfer datblygu a gosod terfynau ymarferol ar effeithiau posib.
57. Mae'n bwysig nodi bod datblygiad technolegau llanw yn broses barhaus ac y gwneir newidiadau i ddyluniadau dros amser. Y disgwyl yw y bydd newidiadau'n cael eu gwneud mewn sawl maes, yn enwedig effeithlonrwydd dyfeisiau llanw. O ganlyniad, gallai capasiti gosodedig dyfeisiau llanw mewn MW gynyddu ond gallai ffiniau eraill sy'n disgrifio dyfeisiau aros yr un fath i raddau helaeth. Mae newidiadau tebyg o ran dyluniad wedi digwydd dros amser mewn sawl sector ynni adnewyddadwy, megis y sector ynni gwynt, a disgwylir newidiadau o'r fath yn y sector llif llanw.

2.2.3. Glanfa Geblau

58. Dadansoddwyd ardal o arfordir o Gaergybi i Fae Trearddur er mwyn canfod pwyntiau addas i'w defnyddio fel glanfa ar gyfer ceblau a choridoriau ceblau allgludo. Ni roddwyd ystyriaeth i leoliadau y tu allan i'r ardal hon oherwydd hyd y ceblau tanfor y byddai eu hangen o'r safle datblygu yn y môr.
59. Mae dynodiadau lefel uchel ar hyd y rhan fwyaf o'r morlin yn yr ardal hon, felly cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o'r safleoedd a'u dichonoldeb er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r risgiau ecolegol a daearegol sy'n gysylltiedig â phob opsiwn ar gyfer glanfa a choridor ceblau allgludo. Lle'r oedd hynny'n bosib, osgowyd dynodiadau natur sensitif.
60. Mae natur y morlin yn y lanfa yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu sut i fynd o gwmpas glanio. Y dull sy'n cael ei ffafrio ar gyfer gosod ceblau yn y lanfa yw dull heb ffosydd. Mae hyn oherwydd presenoldeb clogwyni, creigresi, twyni a chynefinoedd sensitif eraill, yn ogystal â strata caled, creigiog. Mae Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD) yn ddull o osod ceblau ar hyd llwybr tanddaearol penodedig drwy ddefnyddio llwyfan ddrilio wedi'i lleoli ar yr arwyneb. Nid yw'r dull

hwn yn defnyddio ffosydd ac mae ei effaith yn fach iawn. Fodd bynnag, mae pinio ceblau i'r clogwyn neu eu gosod mewn ffos ar y blaendraeth yn ddulliau a asesir hefyd, fel cynllun wrth gefn pe gwelir yn hwyrach ymlaen nad yw HDD yn ymarferol o safbwynt technegol.

61. Roedd cam olaf y broses o ddewis glanfa ar gyfer ceblau yn rhoi ystyriaeth i ddynodiadau cadwraeth, effeithiau gweledol, amodau ar y tir, effeithiau ar breswylwyr gerllaw, ymarferoldeb o ran peirianeg, materion yn ymwneud â thirfeddianwyr a'r llwybr disgwylledig at y cysylltiad i'r grid.

2.2.4. Coridor Ceblau ar y Tir

62. O ystyried natur wledig y prosiect, lleoliad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), barn y cyhoedd a'r ymgynghori a wnaed gyda CSYM, penderfynwyd na fyddai ceblau uwchben yn briodol. Bydd y ceblau'n cael eu gosod mewn ffosydd yn y rhwydwaith ffyrdd lleol, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, i osgoi effeithiau ar gynefinoedd cyfagos yn ystod y gwaith gosod ac i leihau cymaint â phosib ar unrhyw darfu ar safleoedd tirfeddianwyr lleol.
63. Ystyriwyd nifer o feini prawf ar gyfer llwybr y ceblau ar y tir; y lle cyffredinol neu'r lled coridor sydd ar gael ar gyfer gwaith gosod ceblau ar hyd y ffordd; cyfyngiadau mewn rhai mannau y byddai angen i'r llwybr ceblau eu croesi drwy agor ffosydd, neu drwy ddulliau mwy arbenigol heb agor ffosydd mewn rhai sefyllfaoedd; a oes angen croesfannau ychwanegol i osgoi asedau megis ceblau trydan tanddaearol, pibelli nwy, llinellau telathrebu, neu brif bibelli dŵr neu garthion; mynediad rhwydd ar gyfer gwaith gosod, megis pellter rhannau o'r llwybr ceblau oddi wrth y prif rwydweithiau trafndiaeth; a chyfyngiadau ecolegol ac o ran defnydd tir, gan gynnwys dynodiadau gwarchod natur.

2.2.5. Cysylltiad i'r Grid

64. Pwynt cyswllt grid ym Mharc Eco Orthios yw'r pwynt cyswllt addas agosaf ar gyfer capasiti llawn y prosiect ac mae sawl opsiwn ar gael ar gyfer llwybrau ceblau mewn isffyrdd neu ar draws caeau i leihau cymaint â phosib ar y tarfu yn ystod y gwaith gosod. Safle tir llwyd yw'r lleoliad ac mae eisoes wedi cael ei ddatblygu, felly ni fyddai datblygu pellach yn achosi newid mawr i natur yr amgylchoedd.
65. Ystyriwyd pwyntiau cyswllt eraill yn y Fali a Chaergeiliog, ond penderfynwyd peidio â'u cynnwys oherwydd y posibilrwydd o darfu ar brif ffyrdd yn ystod y gwaith gosod.
66. Er na fyddai seilwaith pwynt cyswllt llai ym Mharc Cybi yn ddigonol ar gyfer capasiti llawn y prosiect, byddai hwn yn cynnig cysylltiad i'r rhwydwaith trydan lleol. Felly, mae'r lleoliad hwn wedi'i ddewis fel un addas ar gyfer adeilad offer switsio. Mae'r ddau bwynt cyswllt yn cynnig hyblygrwydd o ran cysylltu'r Prosiect i'r cyflenwad trydan presennol ac o ran y ffordd orau i'r Prosiect allu ateb y galw am gapasiti a gofynion defnyddwyr.


2.3. GWAITH YN Y MÔR

2.3.1. Dyfeisiau Llanw


67. Mae dyfeisiau llanw'n cynnwys TEC (sy'n cynnwys y rotor ac adeiledd lle mae'r cydrannau cynhyrchu wedi'u lleoli), yr adeiledd cynnal, a'r angor neu sylfaen. Mae nifer o dechnolegau llif

llanw cynrychiadol wedi cael eu hystyried er mwyn gweld beth yw'r ystod debygol o TEC y gellir eu harddangos yn yr MDZ.


68. Gan ddefnyddio tri math generig o ddyfais llanw fel esiamplau, a ddangosir yn **Argrafflun 2-1**, **Argrafflun 2-2** ac **Argrafflun 2-3**, gall adeiledd cynnal y TEC fod wedi ei osod ar wely'r môr ac yn gyfan gwbl o dan y dŵr, yn nofio yng nghanol y dŵr, neu'n arnofio. Bydd y TECs a osodir yn perthyn i un o ddau brif fath a ddangosir yn **Argrafflun 2-4**, sef rotorau echel lorweddol (llif echellog); neu rotorau echel fertigol (croeslif).
69. Noder y bydd ffurf benodol dyfeisiau llanw a niferoedd y TEC a gynhelir yn amrywio rhwng y technolegau a osodir.



Argrafflun 2-1 Dyfais Llanw Generig Engbreifftiol 1 – Dyfais llanw sy'n arnofio neu'n ymddangos uwchlaw wyneb y dŵr, yn cynnwys TEC, adeiledd cynnal, ceblau angori/cadwyni angori ac angorau/sylfeini.




Argrafflun 2-2 Dyfais Llanw Generig Enghreifftiol 2 – Dyfais llanw colofn yng nghanol y dŵr, yn cynnwys TEC, adeiledd cynnal, ceblau angori/cadwyni angori ac angor/sylfeini. Noder: dangosir y ddyfais hon yn wynebu cyfeiriad llif y cerrynt.



Argrafflun 2-3 Dyfais Llanw Generig Enghreifftiol 3 – Dyfais llanw wedi'i gosod ar wely'r môr, o dan wyneb y dŵr, gydag adeiledd cynnal TEC a sylfaen.

70. **Argrafflun 2-4** yn dangos y ddau fath generig o TEC gellir eu gosod ar y dyfeisiau llanw generig enghreifftiol a ddangosir yn **Argrafflun 2-1** i **Argrafflun 2-3**. Gall y rhain fod yn TECs ag echel lorewddol neu echel fertigol.



Argrafflun 2-4 Darlun o TEC ag echel lorweddol (ar y chwith) a TEC ag echel fertigol (ar y dde)

2.3.2. Cebblau Allgludo

71. O'r araeau o ddyfeisiau llanw, bydd trydan yn cael ei drosglwyddo drwy geblau rhyng-arâe tanfor i hwb yn y môr neu bwynt(iau) cyswllt arall/eraill. Oddi yno, bydd ceblau allgludo tanfor yn cysylltu i gynffonau ceblau allgludo ger y lan, a bydd y cynffonau ceblau allgludo yn parhau hyd at y lanfa.
72. Lle byddant yn cyrraedd y lan, bydd y cynffonau ceblau allgludo yn cael eu cysylltu i geblau tanddaearol drwy bwl neu fae trosglwyddo, yn agos at y lanfa.

2.4. GWAITH AR Y TIR

73. Bydd y lanfa wedi'i lleoli yn y bae a elwir yn 'Bae'r Henborth'('Abraham's Bosom') ar arfordir gorllewinol Ynys Gybi. Fel y trafodwyd yn **Adran 2.2.3**, mae dau brif ddull y gellid eu defnyddio ar gyfer gosod ceblau yn y lanfa, sef agor ffosydd neu HDD.
74. Yn Is-orsaf y Lanfa y bydd y cysylltiad rhwng y ceblau allgludo yn y môr a'r cebl ar y tir at yr is-orsaf fewndirol wedi'i leoli. Mae lleoliad is-orsaf y lanfa ar dir a ddefnyddir ar gyfer ffermio ar hyn o bryd, yn Nhŷ-Mawr.
75. Yr opsiwn a ffafrir ar gyfer y llwybr ceblau ar y tir yw ei gloddio i mewn i'r rhwydwaith ffyrdd lleol lle bo hynny'n bosib. Lle nad yw'n bosib gwneud hyn oherwydd cyfyngiadau megis ffordd gul neu wasanaethau sydd yno eisoes, gosodir y ceblau mewn tir/caeau cyfagos i'r ffordd. O leoliad is-orsaf y lanfa, mae'r rhan fwyaf o'r llwybr ceblau ar y tir yn dilyn y rhwydwaith is-ffyrdd tuag at yr A55 a'r rheilffordd o Gaergybi i Fangor.
76. Mae Menter Môn yn cyflwyno cynnig i adeiladu is-orsaf cyswllt grid i drawsnewid y trydan a gynhyrchir gan y parth arddangos i fformat y gall y rhwydwaith trydan presennol ei dderbyn. Byddai llwybr y cebl yn rhedeg o Is-orsaf y Lanfa, drwy ffosydd, i'r Adeilad Offer Switsio ym Mharc Cybi, yna i Is-orsaf Cyswllt Grid ym Mharc Eco Orthios i'r dwyrain o Gaergybi (safle hen waith Alwminiwm Môn).

77. Mewn rhai lleoliadau lle byddai angen croesi neu osgoi nodweddion penodol, megis yr A55 a'r rheilffordd o Gaergybi i Fangor, byddai technegau heb ffosydd - megis drilio o dan y nodwedd - yn cael eu defnyddio i osod pibelli, gan leihau cymaint â phosib ar effeithiau amgylcheddol a tharfu.
78. Ceir rhagor o fanylion ynghylch dyluniad y Prosiect ym **Mhennod 4, Disgrifiad o'r Prosiect yng Nghyfrol I** y Datganiad Amgylcheddol.

3. PYNCIAU A YSTYRIWYD YN YR ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL

79. Mae EIA Morlais yn asesu'r pynciau a oedd wedi'u cynnwys ym Marn Gwmpasu Llywodraeth Cymru. Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi pob un o'r pynciau hynny fel rhan o'r NTS.

3.1. PENNOD 7: AMODAU METEOROLEGOL-EIGIONEGOL A PHROSESAU ARFORDIROL

3.1.1. Yr Amgylchedd Presennol

80. Mae'r bennod hon yn darparu asesiad o'r amgylchedd morol ffisegol, gan gynnwys nodweddion megis tonnau, llanw a cherhyntau, yn ogystal â natur y gwaddodion ar wely'r môr ac ar y morlin.
81. Mae'r bennod hon yn cynnwys data meteorolegol-eigionegol (met-eigion) a gasglwyd gan Partrac (2014), data ynghylch gwely'r môr a gasglwyd gan Ocean Ecology (2018) a data geoffisegol a gasglwyd gan Partrac (2018), yn ogystal â chynnyrch modelu rhifiadol gan HR Wallingford (2019).
82. Mae'r rhan fwyaf o wely'r môr yn ardaloedd helaeth o graig waelodol galed, gydag ychydig iawn o waddod. Lle ceir gwaddod yn yr ardaloedd hyn, mae'n wasgarog. Gro, coblau a cherrig mawrion ydyw'n bennaf, ac mae'r rheiny'n rhy drwm i gael eu dal yn y golofn ddŵr, felly ni fyddant yn ffurfio rhan o golofn o waddodion hyd yn oed os bydd y gwaith gosod yn tarfu arnynt.
83. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan ystyried yn benodol effaith y cynnydd rhagamcanol yn lefel y môr a lefel eithaf y dŵr. Gan mai'r cyfnod tebygol y bydd y Prosiect yn weithredol yw 37 mlynedd, a chan fod y seilwaith ar y tir a'r seilwaith yn y môr ddigon pell oddi wrth yr arfordir, ni fydd y cynnydd rhagamcanol yn lefel y môr hyd at 2050 yn newid yn sylweddol yn ystod cyfnod gweithredol y Prosiect.

3.1.2. Dylanwadau ac Effeithiau Posib:

84. Roedd yr asesiad yn ystyried camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r prosiect, a'r effeithiau posib ar nodweddion perthnasol. Roedd yn ystyried dylanwad y Prosiect ar donnau, cerhyntau a symudiad gwaddodion, yn y dŵr ac ar hyd gwely'r môr.
85. Ystyrir effeithiau posib y Prosiect yn ôl y graddfeydd gofodol canlynol:
- Y maes agos: yr ardal agosaf (o fewn degau neu gannoedd o fetrau) i'r Prosiect ac ar hyd yr ECC yn y môr; ac
 - Y maes pell: yr ardal ehangach y gallai'r Prosiect effeithio arni (e.e. o ganlyniad i darfu ar donnau, cerhyntau llanw neu lwybrau gwaddodion).
86. O ran yr effaith fwyaf mewn perthynas â cholofnau o waddodion yn codi o ganlyniad i weithgarwch gosod sylfeini, rhagwelir mai cynnydd bach iawn yng nghrynodiad y gwaddodion mewn daliant y bydd hyn yn ei achosi (yn arferol, llai nag 1 mg/l a hynny bellter byr oddi wrth y pwynt rhyddhau) dros ardal ddaearyddol fach (ychydig o gannoedd o fetrau) yn unig. Bydd yr effeithiau yn rhai dros dro, a bydd crynodiadau cefndir isel iawn yn dychwelyd yn gyflym wedi i'r gweithgarwch gosod ddod i ben (hynny yw, effaith dros dro yn unig sydd dan sylw). Byddai gwaddodion a ddyddodwyd yn gyflym iawn yn cael eu hail-godi fel eu bod mewn daliant ac yn cael eu hailddosbarthu ar draws ardal eang mewn symiau bychain.

87. Ar y cyfan, rhagwelir mai effeithiau bychain, dros dro, mewn rhai mannau yn unig y bydd y Prosiect arfaethedig yn ei gael ar y prosesau hyn. Felly, maent yn perthyn i gategori effaith fach, effaith ddibwys neu dim effaith.
88. Canfuwyd dylanwadau cronol posib mewn perthynas ag un prosiect arall, sef Deep Green - prosiect Aráe Llanw Dyfnder Caergybi, yn yr asesiad. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw golofnau (mân) o waddodion a fydd yn deillio o waith gosod y naill brosiect na'r llall yn ymglyfuno oherwydd: (i) aliniad y prif lifoedd llanw; a (ii) mae'n debygol mai rhaglenni gosod gwahanol fydd dan sylw. Effeithiau bychain fyddai effeithiau'r naill brosiect a'r llall, a byddent yn digwydd dim ond o fewn ychydig gannodd o fetrau o'r prosiect ac yn fyrhoedlog - yn para dim mwy nag ychydig ddyddiau yn gyffredinol.
89. Defnyddiwyd y bennod ar Amodau Met-eigion a Phrosesau Arfordirol fel sail ar gyfer asesu llawer o'r pynciau morol canlynol:

3.2. PENNOD 8: ANSAWDD DŴR MOROL A GWADDOD

3.2.1. Yr Amgylchedd Presennol

90. Mae'r data a'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adran hon yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd ar gyfer **Pennod 7, Amodau Meteorolegol-Eigionegol a Phrosesau Arfordirol**. Mae'r ffynonellau data'n cynnwys gwybodaeth o brosiectau oedd eisoes ar y gweill yn y cyffiniau, megis Datganiad Amgylcheddol Prosiect Deep Green Dyfnder Caergybi Cam I (0.5 MW) (Minesto, 2016) a Phrosiect Wylfa Newydd (Horizon Nuclear Power, 2018), yn ogystal â llenyddiaeth gyhoeddedig.
91. Defnyddiwyd nifer o arolygon penodol i'r safle yn yr asesiad hwn hefyd: arolwg cydraniad uchel o ddyfnder y dŵr a thopograffeg gwely'r môr, gwead a nodweddion gwely'r môr, a daeareg islaw gwely'r môr; arolwg camera gostwng a samplau cipolwg mewn detholiad o safleoedd addas; ac, arolwg Cerbyd Awyr Di-griw (UAV) ac arolwg rhynglanw ar droed.
92. O ran unrhyw waith samplu halogyddion gwaddod penodol i'r safle, yn dilyn adolygiad o amodau gwely'r môr yn yr MDZ a'r ECC, roedd yn glir o ystyried egni llanw uchel iawn yr ardal a phrinder y gwaddod yno, yn ogystal â'r ffaith nad oes hanes o fewnbynnau halogyddion na mecanwaith amlwg ar eu cyfer, fod y potensial am halogiad gwaddod yn isel. Yn ogystal, roedd y ffaith fod gwaddod yn brin iawn yn cyfyngu ar gyfleoedd i gasglu unrhyw samplau gwaddod.
93. Mae'r MDZ yn agos iawn at ddau o Gyrrff Dŵr Arfordirol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ar gyfer Cymru. Mae corff dŵr Gogledd Bae Caernarfon yn un sydd yn y categori statws da yn gyffredinol. Mae data mewn adroddiad gan Horizon Nuclear Power (2018) yn dangos bod gan elfennau ansawdd biolegol statws da (yn seiliedig ar infertebratau benthig); mae elfennau ansawdd ffisigo-gemegol yn y categori uchel (yn seiliedig ar ocsigen, copr a sinc hydodeddig); mae'r elfennau cefnogi hydromorffoleg yn y categori 'cefnogi'n dda' (yn seiliedig ar forffoleg); ac mae'r asesiad cemegol yn dda (yn seiliedig ar asesiad o sylweddau blaenoriaethol).
94. Mae chwe thraeth dŵr ymdrochi ar hyd arfordir gorllewinol Ynys Môn. Mae pob un o'r rhain yn cyrraedd y safon dŵr ansawdd uwch ac maent wedi cyrraedd y safon uwch yn gyson ers 2010. Cymysgedd o ddefnydd gwledig, preswyl a masnachol sydd i ardaloedd y dalgylchoedd dŵr, ond natur wledig sydd iddynt yn bennaf. Fel arfer, lefel isel o ddŵr ffo diwydiannol a charthion

sydd mewn ardaloedd dalgylch dŵr. Yn seiliedig ar y dosbarthiadau categori a adolygwyd fel rhan o'r asesiad hwn, nid oes problemau hysbys o ran dŵr ffo amaethyddol.

3.2.2. Effeithiau Posib

95. Roedd yr asesiadau desg a phenodol i'r safle a gynhaliwyd yn dangos bod disgwyl i ansawdd y dŵr o fewn yr ardal yn y môr a astudiwyd fod yn dda, ac nad yw'r gwaddodion ar wely'r môr yn cynnwys lefelau llygredd a fyddai'n peri pryder.
96. Mae'r asesiad yn ystyried effaith rhyddhau gwaddod, yn ogystal â'r potensial o ryddhau llygryddion a allai fod yn bresennol eisoes yng ngwely'r môr ac y gellid tarfu arnynt yn ystod gwaith gosod y prosiect.
97. Mae graddfa ffisegol helaeth ac amrywiant sylweddol o ran amser a lle i ardal yr astudiaeth. Er bod dynodiadau cadwraeth yn bresennol yn ardal yr astudiaeth, mae sensitifrwydd yr amgylchedd forol oddi amgylch, o ran ansawdd dŵr, yn isel. Fodd bynnag, mae elfen y llwybr ceblau yn y lanfa a ger y lan yn agos at ddŵr ymdrochi dynodedig, felly ystyrir bod sensitifrwydd y dŵr yn ardal y lanfa yn uchel.
98. Drwy'r ymrwymiad i liniaru, roedd yr asesiad yn pennu mai arwyddocâd **dibwys** neu arwyddocâd **andwyol bychan** sydd i'r effeithiau.
99. Mae potensial i'r newidiadau o ran ansawdd dŵr effeithio ar dderbynyddion ecolegol. Felly, rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn y penodau perthnasol (e.e. **Pennod 9, Ecoleg Fenthig a Rhynglanw; Pennod 10, Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn; Pennod 11, Adareg; a Phennod 12, Mamaliaid Morol (Cyfrol I y Datganiad Amgylcheddol)**).
100. Ar y cyfan, ni chanfuwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd dŵr morol a gwaddod yn yr asesiad, a thrwy roi mesurau safonol ar waith i leihau'r risg o lygredd, mae pob effaith bosib ar ddŵr a gwaddod yn anarwyddocaol ac ystyrir mai effeithiau bychain, dros dro, mewn rhai mannau yn unig ydynt.
101. Canfuwyd dylanwadau cronol posib mewn perthynas ag un prosiect arall, sef prosiect Arâe Llanw Deep Green Dyfnder Caergybi, yn yr asesiad. Un sefyllfa lle y gallai dylanwad cronol godi fyddai pe bai gweithgarwch gosod yn digwydd ar yr un pryd ar gyfer y ddau brosiect. Gallai hynny arwain at ddylanwad cronol yn sgil gollyngiadau a thywallt hylifau/deunyddiau yn ddamweiniol. Pe bai'r dylanwad cronol hwn yn codi, gallai arwain at effaith niweidiol sylweddol ar ansawdd dŵr morol lleol. Fodd bynnag, byddai'r ddau brosiect yn mabwysiadu mesurau arfer orau safonol yn annibynnol mewn perthynas ag atal gollyngiadau ac ymateb i ollyngiadau. Felly, byddai arwyddocâd y dylanwad cronol posib hwn yn gostwng i lefel ddibwys.

3.3. PENNOD 9: ECOLEG FENTHIG A RHYNGLANW

3.3.1. Yr Amgylchedd Presennol

102. Er mwyn gallu disgrifio nodweddion y cynefinoedd a rhywogaethau a geir yn yr ardaloedd gwely môr yn yr MDZ a'r ECC, cynhaliwyd arolygon islanw a rhynglanw i gasglu data ecolegol. Cynhaliwyd arolwg graddfa eang o ecoleg gwely môr a rhynglanw'r MDZ a'i amgylchedd yn 2018. Oherwydd yr is-haen galed ar draws ardal yr arolwg, ychydig iawn o samplau a gafwyd

yn ystod yr arolygon islanw a rhynglanw, sy'n dangos mai ychydig iawn o gynefinoedd gwaddod sydd ar draws yr MDZ. Roedd yr astudiaethau hyn yn cynnwys cyfuniad o samplau a gymerwyd o wely'r môr gan ddefnyddio casglwr gwaddod a delweddau fideo tanddwr.

103. Gan mai is-haen oedd y rhan fwyaf o'r parth rhynglanw, cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith samplu drwy ddefnyddio cwadrat, gan gasglu dwy sampl graidd.
104. Ychydig iawn o rywogaethau oedd yn y samplau a gasglwyd, gydag uchafswm o naw unigolyn wedi'u cofnodi mewn unrhyw sampl unigol. Mae'r cymunedau benthig o gwmpas y Prosiect yn gyffredin yn ardal Ynys Môn ac ardaloedd arfordirol ehangach Cymru. Fel arfer, mae'r cymunedau hyn yn cynnwys pryfed genwair cyffredin, pysgod cregyn a sêr môr.
105. Gwelwyd bod ardal yr arolwg rhynglanw yn cynnal amrywiaeth eang o fiotopau craig wedi'u brithio â graean bras a mannau o waddod tywodlyd yma a thraw. Roedd y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y parth rhynglanw yn rhai a gysylltir yn arferol ag ardal rhynglanw egni uchel a phyllau glân môr, megis cregyn gleision, cregyn llong a gwymon brown.
106. Cofnodwyd presenoldeb cynefinoedd pwysig o ran cadwraeth yn ardal yr arolwg ehangach, gan gynnwys y tri chynefin creigres yn Atodiad I. Cofnodwyd bod y sabellaria spinulosa ('Ross worm'), sy'n byw mewn tiwbiau, yn ffurfio creigresi biogenig. Roedd ansawdd y creigresi a lefelau'r natur greigresiog yn amrywio, ond roeddent fel arfer yn bresennol mewn lefelau 'isel' i 'ganolig' o ran natur greigresiog. Yn ogystal, cofnodwyd ardaloedd helaeth o greigresi caregog a chreigresi creigwely.

3.3.2. Effeithiau Posib

107. Yn y senario waethaf bosib yn ystod y gwaith gosod, gallai ôl-troed gwely môr y prosiect arwain at golli gwely'r môr dros dro, a tharfu ar wely'r môr dros dro, o fewn yr MDZ a'r ECC. O ystyried y ganran uchel o fathau tebyg o gynefinoedd sy'n bresennol yn yr MDZ a lefel isel y tarfu dros dro ar gynefinoedd, neu golli cynefinoedd dros dro, a fydd yn digwydd yn ystod y cam gosod, arwyddocâd bychan sydd i'r effaith hon.
108. Bydd mesurau lliniaru pwnc-benodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau cyn lleied â phosib o darfu a cholli mewn perthynas â chynefinoedd yn ystod y gwaith gosod. Er enghraifft, ar ôl cael caniatâd, gellid cynnal arolygon cyn gosod, i chwilio am bresenoldeb unrhyw gynefinoedd a rhywogaethau prin neu a warchodir, megis creigresi biogenig. Yn dilyn yr arolygon hyn, gellid micro-leoli'r cebl er mwyn lliniaru'r effeithiau ar y derbynyddion hyn lle bo'n bosib.
109. Mae'r effeithiau posib a ystyriwyd yn cynnwys tarfu dros dro ar gynefinoedd, colli cynefinoedd dros dro, newidiadau o ran ansawdd dŵr a chynnydd mewn gwaddod sydd mewn daliant. Nid yw'r MDZ yn gorgyffwrdd ag unrhyw safle gwarchod natur ryngwladol sydd wedi'i ddynodi ar gyfer nodweddion islanw neu rhynglanw. Rhagwelir y bydd effeithiau gosod, gweithredu, ailbweru a datgomisiynu ar ecoleg fenthig yn arwain at newidiadau o **arwyddocâd andwyol bychan** neu **arwyddocâd dibwys**.
110. Ni ddangosodd yr asesiad unrhyw ddylanwadau cronol gyda phrosiectau eraill. Mae hyn oherwydd graddfa fechan yr effeithiau a'u natur fyrhoedlog.

3.4. PENNOD 10: ECOLEG PYSGOD A PHYSGOD CREGYN

3.4.1. Yr Amgylchedd Presennol

111. Defnyddiwyd gwybodaeth o waith ymchwil sydd eisoes yn bodoli ar bysgod a physgod cregyn, a gafwyd mewn data cyhoeddedig lleol a rhanbarthol a data 'llenyddiaeth lwyd', i ddisgrifio nodweddion yr amgylchedd sylfaenol. Penderfynwyd asesu rhywogaethau pysgod a physgod cregyn ar sail eu gwerth ecolegol a'u gwerth i bysgotwyr masnachol.
112. Mae ardal yr astudiaeth yn un sydd â llawer o rywogaethau yn byw ar wely'r môr neu'n agos at wely'r môr (dyfnforol). Dangosodd treillrwydi estyllod mai lledod, llythod a lledod chwithig yw'r mwyafrif ohonynt. Gall rhywogaethau dyfnforol eraill gynnwys: draenog y môr, lleden fannog, penfras, llysywen bendoll, llythien, pengernyn, corbenfras, pysgodyn darn arian, lleden lefn, honos, maelgi, rhywogaethau hyrddyn, morlas, lleden chwith a gwyniad y môr.
113. Gall y rhywogaethau pysgod sy'n byw yn y golofn ddŵr ar draws yr MDZ gynnwys corbennog, pennog, macrell a march facrell.
114. Y rhywogaethau pysgod cregyn sydd wedi cael eu glanio o'r ardal ehangach yw ystifflog, cranc (gan gynnwys yn benodol cranc llygatgoch nofiol), cimwch Ewropeaidd, cragen fylchog (gan gynnwys yn benodol cragen y frenhines), cragen foch, corgimwch cyffredin a chimwch Norwy.
115. Mae ardal ehangach yr astudiaeth yn gorwedd yn nwyrain Môr Iwerddon. Diffinnir bathymetreg Môr Iwerddon gan sianel ddofn (hyd at 150 m) yn rhedeg o'r gogledd i'r de yn y rhan orllewinol. Mae'r sianel yn ffurfio ffin ar ymyl gorllewinol yr ysgafell arfordirol helaeth, fas y mae'r Prosiect wedi'i leoli arni. Credir bod y sianel yn chwarae rhan bwysig yn ecoleg y pysgod dyfnforol yn yr ardal, gan ei bod yn creu gwahanfa rhwng poblogaethau a gwahaniaethau yn deillio o hynny o ran nodweddion hanes eu hoes, Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer presenoldeb pysgod dŵr dwfn o'r Môr Celtaidd a gogledd-orllewin yr Alban.
116. Ceir sawl rhywogaeth o bysgod sy'n treulio rhan o'u cylch bywyd yn yr amgylchedd morol a rhan arall yn yr amgylchedd dŵr croyw, gan gynnwys eog yr lwerydd, lamprai a gwangen. Pan fyddant yn yr amgylchedd morol, mae'n bosib y bydd potensial iddynt orgyffwrdd â'r Prosiect.
117. Bydd angen asesu bob un o'r rhywogaethau y nodwyd y byddant yn gorgyffwrdd â'r Prosiect ar gyfer yr asesiad o effaith, i wirio a oes ganddynt statws gwarchodedig ac i wirio am bresenoldeb silfeydd, meithrinfeydd neu feysydd bwydo.

3.4.2. Effeithiau Posib

118. Mae'r bennod yn nodi effeithiau posib ar y rhywogaethau pysgod a physgod cregyn sy'n dderbynyddion a allai fod yn bresennol yn ystod camau'r Prosiect. Mae hefyd yn cyflwyno asesiad o effaith - a'r canlyniadau cysylltiedig, ac yn cynnig mesurau lliniaru lle bo hynny'n berthnasol.
119. Roedd yr asesiad o effaith yn rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth a'r canlyniadau a gyflwynir yn yr asesiadau o bysgodfeydd masnachol, prosesau ffisegol morol, ecoleg gwely môr a sŵn tanddwr a gynhaliwyd ar gyfer y Prosiect.

120. Yn gyffredinol, roedd yr asesiad yn dod i'r casgliad y gallai'r Prosiect arwain at nifer o effeithiau bychain ar ecoleg pysgod a physgod cregyn (megis colli cynefin dros dro a tharfu dros dro ar gynefin). Rhagwelir y bydd yr effeithiau sy'n gysylltiedig â gosod, gweithredu a datgomisiynu ar ecoleg pysgod a physgod cregyn yn rhai ag arwyddocâd andwyol bychan i'r holl dderbynyddion.
121. Y prif ddylanwadau cronol a chyfunol o'r cyfuniad o brosiectau yw sŵn tanddwr, tarfu'n gorfforol ar gynefinoedd a cholli cynefinoedd, cynnydd yng nghrynodiad y gwaddod mewn daliant a mwy o ddyddodi gwaddod. I grynhoi, ni ddisgwylir dylanwadau cronol sylweddol yn deillio o'r Prosiect mewn cyfuniad ag unrhyw gynlluniau neu brosiectau eraill y gellir eu rhagweld yn rhesymol yn ardal ehangach yr astudiaeth. Mae hyn yn berthnasol drwy gydol cylch oes y Prosiect, gan y gallai'r llwybrau ar gyfer effeithiau godi yn ystod pob cam (o'r gosod i'r datgomisiynu). Yn ôl yr asesiad, nid yw'r dylanwadau cronol yn rhai sylweddol oherwydd eu natur fyrhoedlog a'u graddfa fechan o safbwynt daearyddol.

3.5. PENNOD 11: ADAREG FOROL

3.5.1. Yr Amgylchedd Presennol

122. Mae pwysigrwydd yr MDZ a'r coridor ceblau allgludo i adar môr a'r effeithiau posib ar y Prosiect wedi cael eu hasesu drwy arolygon gweledol misol yn defnyddio cychod dros gyfnod o ddwy flynedd, rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Hydref 2018. Yn ogystal, mae astudiaeth ddesg wedi defnyddio llenyddiaeth wyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid a 'llenyddiaeth lwyd', megis cyflwyniadau ac adroddiadau'r prosiect. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ecoleg a dosbarthiad adar môr, ac effeithiau posib datblygiad ynni llanw ar adareg forol.
123. Yn seiliedig ar brofiadau yn ymwneud â cheisiadau am ffermydd gwynt alltraeth mawr, mae Menter Môn yn defnyddio dull gweithredu gweithgor technegol (TWG) a "datganiad tir cyffredin" (SoCG) i reoli prif faterion amgylcheddol y Prosiect, gan gynnwys adareg forol. Drwy ddilyn y dull gweithredu hwn, mae wedi bod yn bosib i arbenigwyr technegol o Cyfoeth Naturiol Cymru ac arbenigwyr adareg, Royal HaskoningDHV, gyfnewid gwybodaeth, ar ran Menter Môn. Mae'r SoCG yn cofnodi'r trafodaethau a'r penderfyniadau ar y prif faterion.
124. Aseswyd pob rhywogaeth aderyn môr a gofnodwyd, gan ystyried eu gwerth o safbwynt gwarchod natur a pha mor sensitif ydynt i effeithiau. Roedd y rhywogaethau o ddiddordeb penodol yn cynnwys y trochydd gyddgoch, y môr-wennol gyffredin, y wylanwydd, y wylog a gwalch y penwaig.
125. Roedd yr effeithiau a aseswyd mewn perthynas â'r camau gosod, gweithredu, ail-bweru a datgomisiynu yn cynnwys tarfu a dadleoli, risg o wrthdaro, ffactorau sy'n rhwystro symudiad ac effeithiau anuniongyrchol (e.e. effeithiau ar rywogaethau ysglyfaeth). Roedd y dadansoddiad yn dilyn dulliau arfer orau gan y diwydiant, gan gynnwys modelu'r risg o wrthdaro, i asesu effeithiau posib y datblygiad arfaethedig yn llawn.

3.5.2. Effeithiau Posib

126. Ar gyfer cyfnod gweithredol y Prosiect, aseswyd y risg o wrthdaro ar gyfer pob un o'r rhywogaethau adar môr sy'n plymio'n rheolaidd a gofnodwyd ar y môr o fewn yr MDZ gan ddefnyddio dau ddull: Modelu'r Gyfradd Gyfarfyddiadau (ERM) a Modelu'r Risg o Wrthdaro

(CRM), yn unol â chanllawiau cyhoeddedig a thrafodaethau gyda'r TWG Adareg yn ystod y gwaith o baratoi'r bennod.

127. Rhagwelir y bydd yr effeithiau ar adareg morol yn arwain at ddylanwadau ag arwyddocâd **andwyol bychan** i arwyddocâd **dibwys**, gyda dylanwadau ffafriol bychain ar rai rhywogaethau.
128. Mae'r effeithiau ar y safleoedd dynodedig perthnasol wedi cael eu gwerthuso fel rhan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Byddant felly'n cael eu hystyried ymhellach yn yr Wybodaeth ar gyfer yr Adroddiad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyflwynwyd fel rhan o'r cais TWAO.
129. Cynhaliwyd asesiad i ystyried y risg o wrthdaro, y sŵn yn yr awyr a'r tarfu gweledol a fyddai'n gysylltiedig â'r Prosiect a phrosiectau gerllaw. Daeth yr asesiad hwn i'r casgliad na fyddai'r risg o wrthdaro yn ystod cam gweithredol y prosiect yn ddim mwy na dylanwad cronol andwyol bychan. Daethpwyd i'r casgliad y byddai arwyddocâd dylanwad cronol sŵn yn yr awyr a tharfu yn ystod y gosod a'r gweithredu yn ddibwys.

3.6. PENNOD 12: MAMALIAID MOROL

3.6.1. Yr Amgylchedd Presennol

130. Ystyrir statws a gweithgarwch mamaliaid morol yr ydym yn gwybod eu bod yn gallu bod yn bresennol yn yr MDZ neu'n gyfagos iddo yng nghyd-destun dynameg y boblogaeth ranbarthol ar y raddfa berthnasol, yn dibynnu ar y data sydd ar gael ar gyfer bob rhywogaeth a pha mor helaeth yw'r boblogaeth gyfeirio y cytunwyd arni.
131. Cynhaliwyd pedwar ar hugain o arolygon yn ystod y ddwy flynedd o arolygon llinell sylfaen ar famaliaid morol yn yr MDZ rhwng Tachwedd 2016 a Hydref 2018. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys data arolwg a gasglwyd gan SEACAMS (deunaw o arolygon a gynhaliwyd rhwng Ionawr 2015 a Rhagfyr 2016) ac amcangyfrifon dwysedd a ddadansoddwyd gan SEACAMS.
132. Yn ogystal â'r arolygon penodol i safle, adolygwyd ystod o ffynonellau data eraill perthnasol a gwybodaeth arall berthnasol i ddarparu gwybodaeth ynghylch y rhywogaethau mamaliaid morol a allai fod yn bresennol ym mharth y Prosiect arfaethedig ac o'i amgylch.
133. Gan fod mamaliaid morol yn tueddu i symud o le i le yn aml ac yn aros am gyfnodau byr yn unig, roedd yr asesiad yn edrych ar bresenoldeb rhywogaethau yn y rhanbarth ehangach, gan gynnwys gorllewin yr Alban a dyfroedd Iwerddon, yn ogystal ag yn yr MDZ arfaethedig.
134. Mae adolygiad o'r Atlas of Marine Mammals of Wales yn dangos bod pedwar ar bymtheg o rywogaethau mamaliaid morol wedi cael eu cofnodi yn nyfroedd Cymru ers 1990 (Baines ac Evans, 2012). Ymhlith yr ymwelwyr mynychaf y mae llamidyddion, dolffiniaid trwynbwl, morloi llwyd, dolffiniaid cyffredin, dolffiniaid llwyd a morfilod pigfain. Ymhlith y rhywogaethau a gofnodwyd yn llai aml yr oedd morfilod asgellog llwyd, morfilod asgellog sei a morfilod cefngrwm. Cofnodir morloi llwyd yn rheolaidd hefyd o amgylch Cymru (Baines ac Evans, 2012; SCOS, 2017).

135. Yn unol â'r dull gweithredu ar gyfer Adareg Forol, defnyddiwyd y dull SoCG a TWG i reoli'r prif faterion yn ymwneud â Mamaliaid Morol, gan ddefnyddio arbenigwyr technegol o CNC a Royal HaskoningDHV, ar ran Menter Môn.

3.6.2. Effeithiau Posib

136. Gan gymryd y mesurau lliniaru arfaethedig i ystyriaeth, drwy gydol y camau gosod, gweithredu a chynnal, ail-bweru, a datgomisiynu, rhagwelir mai arwyddocâd dibwys neu andwyol bychan fydd i'r effaith ar famaliaid morol.
137. Yr unig eithriad yw'r risg y bydd dolffiniaid trwynbwl yn gwrthdaro â thyrbinau gweithredol. Fel rhagofal, aseswyd hwnnw fel un a allai fod yn andwyol bychan i ganolig. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer fechan o unigolion yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'r risg posib yn debygol o fod yn is, gan nad yw dolffiniaid trwynbwl wedi cael eu cofnodi yn yr MDZ ac maent yn fwy tebygol o symud ar hyd yr arfordir na thrwy ardal arâe yr MDZ. Hefyd, mae'r dull a ddilynwyd yn yr EIA yn un hynod ragofalus drwyddo draw. Yn y cyfnod o fwy na 15 mlynedd y mae cynlluniau llif llanw wedi bod yn weithredol yn y DU, nid oes yr un cofnod wedi bod o famaliaid morol yn gwrthdaro â thyrbinau llanw nac unrhyw dystiolaeth arall i awgrymu effaith andwyol.

3.7. PENNOD 13: ARCHAEOLEG YN Y MÔR A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

3.7.1. Yr Amgylchedd Presennol

138. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth a deunyddiau cyfeirio fel sail i'r asesiad o natur, hyd a lled a phwysigrwydd yr adnoddau treftadaeth hysbys a'r potensial ohonynt. Casglwyd ynghyd wybodaeth o bum cronfa ddata dreftadaeth. Yn ogystal, cynhaliwyd arolwg geoffisegol penodol i safle ar draws yr MDZ, i fwydo i'r asesiad.
139. Mae nifer o eitemau o ddiddordeb archeolegol posib wedi'u lleoli yn ardal yr astudiaeth. Nodwyd y rhain gan ddefnyddio'r data geoffisegol a phennwyd eu potensial archeolegol. Pennwyd mai drylliadau oedd pob un o'r eitemau â photensial archeolegol uchel. Defnyddiwyd cofnodion hanesyddol hefyd i nodi unrhyw fannau â photensial, a chawsant eu croesgyfeirio â'r eitemau hyn. Pennwyd mai tomenni, malurion ac anomaleddau magnetig oedd yr eitemau â photensial archeolegol canolig.

3.7.2. Effeithiau Posib

140. Mae'r mesurau lliniaru hanfodol i'w rhoi ar waith cyn y gwaith gosod, er mwyn osgoi asedau treftadaeth posib, yn cynnwys:
- Lliniaru drwy ficro-leoli a mabwysiadu parthau archaeolegol dan waharddiad (AEZs) o amgylch safleoedd drylliadau hysbys ac anomaleddau geoffisegol â photensial canolig.
 - Lle bo'n bosib, dylid lliniaru drwy ficro-leoli neu osgoi, neu addasu dyluniad y gwaith gosod sylfaen ar gyfer ardaloedd sianel posib (oni bai ei bod hi'n bosib cynhyrchu adroddiad neu fod y gwerth archaeolegol wedi'i gadarnhau fel gwerth isel);
141. Mae'r mesurau lliniaru ychwanegol er mwyn lleihau cymaint â phosib ar effeithiau ffisegol uniongyrchol yn ystod y gwaith gosod yn cynnwys:

- Creu Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig (WSI);
- Dylid cael asesiad geoarchaeolegol i gyd-fynd ag unrhyw ymgyrchoedd geodechnegol sy'n digwydd o fewn y safle;
- Gweithredu'r Protocol ar gyfer Darganfyddiadau Archeolegol (PAD), fel rhan o'r WSI, ar gyfer Prosiectau Ynni Adnewyddadwy yn y Môr (Ystâd y Goron 2014), drwy gydol y Prosiect; a
- Chynnal gorchwyl gwyllo yn y parth rhynglanw.

142. Drwy roi mesurau lliniaru hanfodol ac ychwanegol ar waith, rhagwelir y bydd yr effeithiau ar archaeoleg alltraeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith gosod, gweithredu, ail-bweru a datgomisiynu (gan gynnwys dylanwadau cronol a thrawsffiniol) yn arwain at ddylanwadau ag arwyddocâd dibwys neu andwyol bychan.

3.8. PENNOD 14: PYSGODFEYDD MASNACHOL

3.8.1. Yr Amgylchedd Presennol

143. Yn seiliedig ar waith adolygu data swyddogol gan y Sefydliad Rheoli Morol ar laniadau a gweithgarwch, wedi'i gyfuno ag adborth drwy ymgynghori lleol, gwaith adolygu rhestrau llongau a chychod cofrestredig (Mawrth 2019) a data o arolygon penodol i'r prosiect o draffig morol (radar/gweledol), gwelir mai lefel isel o weithgarwch pysgota masnachol a geir yn yr MDZ/ECC o gymharu ag ardaloedd eraill oddi ar arfordir Cymru.
144. Mae treillio wedi ei ganolbwyntio oddi wrth y lan, i'r gogledd, de a gorllewin o'r MDZ. Mae'r un yn wir am dreillio am gregyn bylchog. Ymddengys bod pysgodfa cregyn moch (cyfarpar statig) o fewn yr MDZ, ond cyfyngedig yw ei graddfa o'i chymharu â physgodfeydd eraill ar gyfer y rhywogaeth hon mewn mannau eraill oddi ar arfordir Cymru. Dylid nodi ei bod yn ymddangos mai ychydig o gynefinoedd priodol a geir ar gyfer cregyn moch yn yr MDZ, felly efallai fod hyn yn rhywbeth sydd wedi codi oherwydd graddfa'r gwaith casglu data.
145. O fewn ardal yr astudiaeth (petryal ICES 35ES), y prif rywogaethau masnachol, ar sail pwysau a gwerth glaniadau, yw cregyn moch, cregyn bylchog, crancod a chimychod. Yr un rhywogaethau yw'r prif rai sy'n cael eu glanio yn nhri phorthladd pwysicaf yr ardal leol, sef Caergybi, Amlwch a Morfa Nefyn.
146. Mae'r ardal ger y lan yn cefnogi dwysedd cymharol uchel o <10m o gychod a llongau sy'n defnyddio cyfarpar statig ar gyfer crancod/cimychod, a cheir gweithgarwch penodol yn y lanfa/yr ardal ger y lan (Bae'r Henborth).

3.8.2. Effeithiau Posib

147. Rhagwelir y bydd yr effeithiau sy'n gysylltiedig â gosod, gweithredu a datgomisiynu ar bysgodfeydd masnachol yn arwain at ddylanwadau ag arwyddocâd **dibwys i andwyol bychan**.
148. Mae mwyafrif helaeth yr effeithiau ar dderbynyddion bysgodfeydd masnachol drwy gydol y gwahanol gamau datblygu yn debygol o fod ag arwyddocâd andwyol bychan. Rhagwelir rhai effeithiau andwyol canolig posib, ond drwy weithredu mesurau lliniaru priodol yn llwyddiannus, bydd y rhain yn gostwng i fod yn effeithiau ag arwyddocâd andwyol bychan/dibwys.

149. Er y cymerir y bydd gweithgarwch pysgota masnachol wedi ei wahardd yn llwyr ym mhrif safle arâe yr MDZ, mae'r casgliadau hyn o'r asesiad yn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond lefel isel o weithgarwch sy'n digwydd ar hyn o bryd yn yr ardal hon. Felly, ni fydd gwahardd yn creu effeithiau sylweddol ar gychod a llongau, a fydd yn gallu targedu meysydd eraill (fel y maent ar hyn o bryd).
150. Gallai effeithiau ffafriol posib godi ar gyfer derbynyddion pysgota masnachol drwy gyfleoedd i gefnogi gweithrediadau morol ar bob cam o'r prosiect. Cyflwynwyd adolygiad manwl o'r cyfleoedd hyn mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan Menter Môn yn 2015 (MarineSpace, 2015).

3.9. PENNOD 15: MORGLUDO A MORDWYO

3.9.1. Yr Amgylchedd Presennol

151. Mae'r asesiad ar forgludo a mordwyo yn ystyried cludiant nwyddau neu bobl mewn cwch neu long, at ddibenion masnachol neu hamdden. Mae hefyd yn ystyried agweddau mordwyo/gweithgareddau morol, er enghraifft pysgota, agregau morol, neu olew/nwy.
152. Cynhaliwyd arolygon penodol i'r prosiect o draffig morol yn ystod yr haf a'r gaeaf yn 2017 a 2019. Roedd y rhain yn casglu data System Wybodaeth Awtomatig (AIS), radar a gweledol. Roedd yr arolygon hyn yn casglu data dros gyfnodau o bythefnos yn yr haf a'r gaeaf, yn unol ag argymhellion MGN543. Casglwyd rhagor o wybodaeth drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr sefydliadau pysgota masnachol a hamdden, a'r harbwr feistr lleol.
153. Casglwyd gwerth chwe mis o ddata AIS rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2018 yn ychwanegol at hyn, i roi cyfrif am unrhyw amrywiant tymhorol o ran gweithgarwch llongau fferi a'r defnydd o lwybrau tywydd gwael.
154. Defnyddiwyd proses Asesiad Risg Mordwyo (NRA) ffurfiol (**Atodiad 15.1, Cyfrol III** y Datganiad Amgylcheddol) i bennu a mesur yr effeithiau a gyflwynir ym **Mhennod 15, Morgludo a Mordwyo**. Roedd yr asesiad yn cynnwys modelu'r risg o daro/gwrthdaro (gan gynnwys y Cliriad o dan y Cêl (UKC)) ac asesiad diogelwch ffurfiol ar gyfer pob cam o'r datblygiadau, yn ogystal ag asesiad o effeithiau cronol a chyfunol.
155. Cynhaliwyd Asesiad Diogelwch Ffurfiol (FSA) hefyd. Roedd hwn yn cyfuno barn arbenigwyr a gwybodaeth leol a gasglwyd mewn cyfarfodydd ymgynghori a gynhaliwyd ar ddiwedd 2018 a dechrau 2019. Ar ôl nodi effeithiau achosion yn y dyfodol a chanlyniadau'r FSA, cynhaliwyd asesiad o'r effaith yn unol â'r canllawiau ar gyfer EIA. Mae'r asesiad hwn o'r effaith yn sgrinio'r effeithiau a nodwyd yn yr NRA gan ddefnyddio llwybrau effeithiol.

3.9.2. Effeithiau Posib

156. Yn unol â'r derminoleg a ddefnyddir yn yr NRA ac a gyflwynir ym **Mhennod 15, Morgludo a Mordwyo**, defnyddir difrifoldeb canlyniad ac amllder digwyddiad yn hytrach na maint yr effaith a sensitifrwyd y derbynnydd.
157. Mae'r effeithiau a nodwyd yn cynnwys dadleoli llongau neu gychod, cynnydd yn y risg o wrthdaro rhwng un llong/cwch ac un arall, a photensial i gwch neu long ryngweithio ag adeileddau'r

dyfeisiau llanw neu'r seilwaith tanfor (ceblau a llinellau angori). Ystyrir hefyd y cyfyngiadau posib ar adnoddau Chwilio ac Achub. Gyda mesurau lliniaru addas ar waith (megis pennu llwybrau llongau/cychod adeiladu a mynedfeydd/allanfeydd penodol ar gyfer yr MDZ), ystyrir bod lefelau risg yr effeithiau yn dderbyniol neu oddefol.

158. Yn ogystal, gyda mesurau lliniaru addas ar waith, ystyrir bod lefelau pob un o'r effeithiau cronol yn dderbyniol.

3.10. PENNOD 16: SEILWAITH MOROL A DEFNYDDWYR ERAILL

3.10.1. Yr Amgylchedd Presennol

159. Roedd yr asesiad hwn yn ystyried prosiectau ffermydd gwynt alltraeth, gweithgarwch olew a nwy, cloddio am agregau morol, safleoedd gwaredu yn y môr, ardaloedd ymarfer milwrol, ceblau telathrebu a thrydan, piblinellau, datblygiadau porthladd, carthu cyfalaf a chynnal, ardal ymgynghori glo a heli, ac ordnans heb ffrwydro (UXO).
160. Er bod yr MDZ yn agos at gebl telathrebu gweithredol CeltixConnect, mae **Pennod 9, Amodau Meteorolegol-Eigionegol a Phrosesau Arfordirol** yn dangos mai mân-newidiadau yn unig a ddisgwylir, o ran sgwrfa llanw a cholofnau gwaddod yng nghyffiniau'r cebl telathrebu gweithredol, hyd yn oed yn y senarios gwaethaf posib. Fodd bynnag, i atal rhyngweithio â'r ceblau, bydd byffer diogelwch 500 m arfaethedig yn weithredol.
161. O ystyried lleoliad yr MDZ, ceir potensial o amlygu a tharfu ar UXO. Bydd mesurau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r risg sy'n codi o UXO a ganfyddir.

3.10.2. Effeithiau Posib

162. Mae'r effeithiau posib yn ystod y camau gosod, gweithredu a datgomisiynu yn cynnwys effeithiau ar geblau a phib linellau tanfor, safleoedd gwaredu gweithgareddau cloddio am agregau, chwilio am olew a nwy a chynhyrchu olew a nwy, a daeth yr asesiad i'r casgliad mai arwyddocâd dibwys i andwyol bychan sydd i'r rhain.
163. Byddai'r effeithiau'n cael eu hosgoi i raddau helaeth, gan fod gofyniad yn bodoli i ddiwydiannau gydweithio a gweithredu mewn modd diogel. Byddai cytundebau gyda gweithredwyr perthnasol yn cael eu sefydlu fel mesurau lliniaru hanfodol a byddai ymgynghori parhaus â datblygwyr yn sicrhau mai arwyddocâd isel fyddai i'r effeithiau.
164. Mae'r asesiad yn dangos, oherwydd bod yr MDZ y tu allan i Barth Traffig y Maes Glanio Milwrol (MATZ), fod unrhyw botensial o effaith yn ystod pob cam o brosiect yr MDZ yn debygol o fod yn ddibwys.

3.11. PENNOD 17: ADNODDAU DŴR A'R RISG O LIFOGYDD

3.11.1. Yr Amgylchedd Presennol

165. Fel sail i'r asesiad o'r effaith, cynhaliwyd adolygiad desg o'r data sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'r llwybr ceblau ar y tir yn croesi, neu'n rhedeg yn ymyl, nifer o gyrsgau dŵr cyffredin, dienw. Dyfrffosydd a nentydd gyda ffrydiau'n bwydo iddynt yw'r rhain. Nodwyd pedair ar ddeg o

nodweddion dŵr wyneb y gallai'r Prosiect eu croesi neu ryngweithio â nhw. Gan mai nentydd bychain a ffosydd draenio yw'r nodweddion dŵr wyneb o fewn yr ardal ddatblygu ar y tir, a chyrsgiau dŵr cyffredin ydynt, nid oes data ar gael yn ymwneud ag ansawdd y dŵr ynddynt.

166. Mae'r lanfa geblau wedi'i lleoli mewn ardal ar ymyl yr arfordir sy'n draenio i'r môr, felly ystyrir dau gorff dŵr arfordirol Cyfarwyddiaeth Fframwaith Dwr WFD; Gogledd Bae Caernarfon a Chulfor Caergybi. Mae'r data a gyflwynir yn y daenlen y gellir ei lawr lwytho gan CNC, Cylch 2 Afonydd a Chyrff Dŵr y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (a ddefnyddiwyd ym mis Mawrth 2019), yn dangos bod ansawdd y dŵr yng nghorff dŵr arfordirol Gogledd Bae Caernarfon yn dda, a bod ansawdd y dŵr yng nghorff dŵr arfordirol Culfor Caergybi yn ganolog.
167. Mae Map Cyngor Datblygu CNC yn dangos bod yr ardal ddatblygu ar y tir wedi'i lleoli ym Mharth A (lle ystyrir bod y risg o lifogydd afon neu lanw / arfordirol yn fach, neu nad oes risg o gwbl), ar wahân i bedair ardal fechan ar y blaendraeth yn y lanfa sydd ym Mharth C2 (ardaloedd ar y gorlifdir heb seilwaith sylweddol i amddiffyn rhag llifogydd) ac sydd heb seilwaith sylweddol i amddiffyn rhag llifogydd.
168. Nid oes cofnodion o lifogydd yn y gorffennol yn deillio o afonydd, y môr, dŵr daear neu ddŵr wyneb ar draws yr Ardal Ddatblygu ar y Tir. Mae ymyl yr arfordir yn y lanfa yn cynnwys pedair ardal sydd yn y categori risg isel o lifogydd o'r môr bob blwyddyn. Mae'r ardaloedd â risg canolog yn cynnwys Fferm Tŷ-Mawr ac ar hyd y ffordd yng Ngogledd Porth Dafarch. Ceir disgrifiad manylach o'r risg llifogydd sylfaenol yn ardal y gwaith ar y tir yn yr Asesiad o Ganlyniad y Risg o Lifogydd (FRC) (**Atodiad 17.1, Cyfrol III** y Datganiad Amgylcheddol).
169. Nid oes Parthau Gwarchod Tarddiad (SPZs) yn ardal y gwaith, sy'n awgrymu nad yw'r dŵr daear yn cael ei dynnu oddi yno ar gyfer cyflenwad dŵr cyhoeddus. Ceir Cyflenwadau Dŵr Preifat (PWS) ar Ynys Gybi. Fodd bynnag nid oes yr un yn bresennol o fewn 250m i'r ardal ddatblygu ar y tir.

3.11.2. Effeithiau Posib

170. Roedd yr asesiad o'r effaith yn ystyried effeithiau posib ar adnoddau dŵr a'r risg o lifogydd, gan gynnwys tarfu'n uniongyrchol ar gyrff dŵr daear a dŵr wyneb, cynnydd yn y risg o lifogydd, pridd yn mynd i mewn i gyrsiau dŵr, a gollwng tanwyddau, olewau ac ireidiau yn ddamweiniol yn ystod y gwaith gosod.
171. Mae **Pennod 17, Adnoddau Dŵr a'r Risg o Lifogydd** (yng **Nghyfrol I** y Datganiad Amgylcheddol) yn dangos na fydd dylanwad gweddilliol yr holl effeithiau, yn dilyn mesurau lliniaru, yn fwy nag andwyol bychan. Felly, ni fydd unrhyw effeithiau sy'n cael eu hystyried yn rhai sylweddol o safbwynt EIA (hynny yw, canolog neu andwyol mawr) yn deillio o'r Prosiect.
172. Mae'r dylanwadau cronol ar y cyd â phrosiectau perthnasol eraill yn ystod y cam gosod a'r cam gweithredol y tu allan i'r cwmpas dan sylw. Mae hyn oherwydd graddfa fechan yr effeithiau a'u natur fyrhoedlog.

3.12. PENNOD 18: AMODAU AR Y TIR A HALOGIAD

3.12.1. Yr Amgylchedd Presennol

173. Fel sail i'r asesiad o'r effaith, cynhaliwyd adolygiad desg o'r data sydd ar gael i'r cyhoedd ac arolwg ar droed. Tir amaethyddol i raddau helaeth yw'r ardal ar y tir sy'n rhan o'r astudiaeth. Mae hynny'n golygu bod potensial i darddleoedd llygredd gwasgaredig a phenodol fod yn bresennol oherwydd gweithgareddau amaethyddol cyfredol. Mae'r aneddiadau o fewn neu yn ymyl y datblygiad arfaethedig ar y tir yn cynnwys ardal Kingsland yn Nhref Caergybi. Mae gan ardaloedd datblygedig hefyd y potensial am ffynonellau halogi tir hanesyddol.
174. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli mewn ardal sydd â sawl defnydd tir sensitif. Mae'n cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAs). Yn ogystal â'r dynodiadau tir sensitif hyn, mae'r cyfan o Ynys Môn yn Geoparc UNESCO dynodedig.
175. Mae glanfa'r Prosiect wedi'i lleoli ym Mae'r Henborth ar Ynys Gybi. Mae'r ardal hon yn cynnwys traeth creigiog agored, gyda chefnwlad o rostir arfordirol a thir ffermio y tu cefn iddo. Tir ffermio yw gorsaf y lanfa ar yn o bryd. O is-orsaf y lanfa, mae'r llwybr ceblau ar y tir yn dilyn y rhwydwaith is-ffyrdd at yr A55 a'r rheilffordd o Gaergybi i Fangor yn bennaf. O'r fan honno, bydd cysylltiad y grid ym Mharc Cybi ac yn rhedeg drwy HDD i is-orsaf ym Mharc Eco Orthios i'r dwyrain o Gaergybi (hen safle Gwaith Alwminiwm Môn).
176. Ymgwymerwyd ag Asesiad Risg Rhagarweiniol (PRA) i bennu a yw'r prosiect yn cyflwyno risgiau annerbyniol posibl ai peidio i dderbynyddion sensitif (**Atodiad 18.1, Cyfrol III** o'r Datganiad Amgylcheddol). Mae'r PRA yn astudiaeth desg sy'n ffurfio'r cam cyntaf yn asesu tir sydd o bosibl wedi'i halogi.
177. Yn ogystal, gwnaethpwyd Adroddiad Asesu Gwastraff hefyd i ystyried ailddefnyddio neu gael gwared ar ddeunyddiau sy'n codi yn ystod y gwaith adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu'r Prosiect (**Atodiad 18.2, Cyfrol III** o'r Datganiad Amgylcheddol).

3.12.2. Effeithiau Posib

178. Mae'r asesiad yn dangos bod y mesurau lliniaru (rhai sydd wedi'u mewnosod a rhai ychwanegol) mewn lle i atal effeithiau ar dderbynwyr. Disgwylir i'r prosiect fod yn **ddibwys** o ran amodau'r tir a halogiad.
179. Mae'n annhebygol y bydd effeithiau cronol llwybrau o weithrediad y prosiect. Bydd gweithgareddau O&M rheolaidd yn dilyn gweithdrefnau safonol ac felly yn lleihau unrhyw effeithiau posibl.
180. Ni ystyriwyd effeithiau cronol gyda phrosiectau perthnasol eraill yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu yn yr asesiad. Mae hyn oherwydd graddfa fechan yr effeithiau a'u natur fyrhoedlog.

3.13. PENNOD 19: ECOLEG AR Y TIR

3.13.1. Yr Amgylchedd Presennol

181. Mae'r asesiad Ecoleg ar y Tir yn seiliedig ar gyfres helaeth o arolygon ecolegol yn 2018. Cynhaliwyd gwaith arolygu cynefinoedd Cam 1 ym mis Ebrill a Mai. Dilyniwyd hyn ag arolwg manylach o lynnoedd am Fadfallod Dŵr Gribog, ac Arolwg Cynefin Cam 1 Estynedig (EP1HS) wrth i'r llwybr ddod yn fwy amlwg. Ymgwymerwyd ag astudiaeth ddesg fanwl hefyd. Mae'r Ardal Astudio yn ymgorffori ystod eang o gynefinoedd; glaswelltir, rhostir, prysg, llystyfiant clogwyn, llystyfiant corstir, llynnoedd/corff dŵr, coetir, ffiniau caeau, ardaloedd trefol/adeiledig.
182. Mae dau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Tre Wilmot a Beddmanarch-Cymyran) o fewn 2 km o'r ardal ddatblygu ar y tir. Mae pum Gwarchodfa Bywyd Gwyllt Lleol (GNLI) anstatudol a deg Safle Coetir Hynafol (AWI) yn yr Ardal Astudio Ecolegol. Mae'r Ardal Ddatblygu Ar y Tir hefyd yn ffinio â gwarchodfa Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Clogwyni'r Ynys Lawd. Mae'r holl safleoedd sy'n ddynodedig oherwydd eu gwerth cadwraeth natur wedi'u hosgoi, lle bynnag sy'n bosibl, yn ystod y broses o ddewis safleoedd. Mae coetiroedd hynafol a rhannau o goetiroedd wedi'u hosgoi a bydd y rhan fwyaf o'r llwybr cebl ar y tir yn cael ei leoli o fewn y rhwydwaith ffyrdd presennol i leihau aflonyddwch i gynefinoedd cyfagos.
183. Lle nad oedd osgoi yn bosibl, er enghraifft lleoliad golwg y tir yn ACA/AGA/SoDdG Glannau Ynys Gybi, sy'n ddynodedig ar gyfer dau gynefin cynradd; 'Clogwyni'r môr llawn planhigion Arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig' a 'Rhostir sych Ewrop'. Yn y lleoliad hwn, dewisir technegau adeiladwaith eraill i osgoi effeithiau (e.e. technegau heb ffosydd i fynd o dan y nodwedd).
184. Mae'r SPA yn cefnogi poblogaeth preswyl o frân goesgoch, sy'n defnyddio'r rhostir ar gyfer bridio a phorthiant. Yn dilyn y broses dewis safle i ddiffinio ôl troed y Prosiect, ni chofnodwyd rhostiroedd gwlyb na sych yn ystod yr arolygon yn yr Ardal Ddatblygu ar y Tir ac maent felly yn absennol o'r lleoliadau lle bydd gweithgareddau golwg y tir yn digwydd. Gall gwaith adeiladu yng ngolwg y tir yn ystod y tymor bridio achosi aflonyddwch i frain coesgoch sy'n nythu.
185. Yn unol â'r dull gweithredu ar gyfer Adareg Forol, defnyddiwyd y dull SoCG a TWG i reoli'r prif faterion yn ymwneud ag Adareg Ar y Tir, gan ddefnyddio arbenigwyr technegol o CNC a Royal HaskoningDHV, ar ran Menter Môn.

3.13.2. Effeithiau Posib

186. Mae'r prif effeithiau posibl y Prosiect ar dderbynwyr ecolegol ar y tir wedi'u hadnabod. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau ar safleoedd dynodedig statudol ac anstatudol, colli cynefinoedd dros dro ac yn barhaol a darniad, a rhywogaethau gwarchodedig a nodedig yn cael eu hanafu neu eu lladd o bosibl yn ystod cam adeiladu'r Prosiect. Adnabuwyd lliniariad penodol i rywogaethau ar gyfer yr effeithiau hyn, sy'n cynnwys arolygon cyn-adeiladu (i gadarnhau a yw'r poblogaethau wedi newid), micro-leoli, adfer cynefinoedd coll a dulliau gweithio rhagofalus.
187. I osgoi effeithiau niweidiol o weithgareddau adeiladu ar olwg y tir a llwybr y cebl ar y tir ar fridio brain croesgoch, ni fydd gwaith adeiladu yn digwydd o fewn 500 m o nyth brain croesgoch gweithredol yn ystod y tymor bridio.

188. Gall effeithiau posibl yn ystod y gwaith godi o waith cynnal a chadw a goleuadau gweithio yn is-orsaf y prosiect ar y tir. Bydd goleuadau gweithio yn cael eu dylunio i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd arfer orau megis hwnnw sydd wedi'i nodi yn *Artificial Lighting and Wildlife Guidance* y Bat Conservation Trust i leihau aflonyddwch i rywogaethau sy'n sensitif i oleuadau.
189. Ystyriwyd effeithiau posibl yn ystod y cam adeiladu, heb unrhyw fesuriadau lliniaru, i amrywio o arwyddocâd dibwys i sylweddol, dan y senario waethaf bosib. Ar ôl mabwysiadu'r cyfarwyddyd arfer orau a mesurau lliniaru argymelledig, bydd yr effeithiau gweddilliol i'r rhan fwyaf o dderbynwyr ecolegol o waith adeiladu'r Prosiect o arwyddocâd dibwys i leiaf yn y tymor byr i ganolog wrth i gynefinoedd sydd wedi'u haflonyddu ailsefydlu yn dilyn adferiad y cynefin.
190. Y dewis i ddod â'r ceblau i'r lan yng ngolwg y tir yw defnyddio technoleg HDD. Dan y sefyllfa hon, ni fydd effaith i SoDdG / AGA / ACA Glannau Ynys Gybi nac ei rywogaethau nac ei gynefinoedd dynodedig / hysbysedig. Pe na fydd HDD yn ymarferol, am resymau technegol neu fasnachol, bydd effeithiau dros dro hyd at arwyddocâd cymedrol niweidiol i'r clogwyni llawn llystyfiant o gynefin Arfordir yr Iwerydd yn ôl troed y gwaith agor ffosydd i'r cebl a byffer gwaith adeiladu yn ystod gwaith adeiladu ac adfer y math hwn o llystyfiant.

3.14. PENNOD 20: ARCHAEOLEG AR Y TIR A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

3.14.1. Yr Amgylchedd Presennol

191. I asesu effeithiau ar archaeoleg ar y traeth a threftadaeth ddiwylliannol y Prosiect, mae angen adnabod presenoldeb asedau treftadaeth a'r posibilrwydd am asedau treftadaeth nad ydynt yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd, yn cynnwys asedau dynodedig (e.e. Henebion Cofrestredig) ac asedau nad ydynt wedi'u dynodi. I gasglu'r set hon o ddata, ymgwymerwyd ag asesiad desg (DBA) gan Wessex Archaeology (2019). Yn ogystal, ymgwymerwyd ag asesiad gosod treftadaeth cychwynnol fel rhan o'r DBA.
192. Mae'r manau o ddiddordeb archeolegol ar y tir a threftadaeth ddiwylliannol yn yr ardal yn cynnwys asedau treftadaeth dynodedig ac asedau nad ydynt wedi'u dynodi ac yn cynnwys olion archeolegol dan y tir ac asedau treftadaeth adeiledig uwch ben y tir. Mae'r sylfaen hefyd yn ystyried nodwedd tirlun hanesyddol ardal y Prosiect.
193. Mae'r bennod yn cynnwys asesiad o effeithiau posibl y gwaith adeiladu a gweithredu'r Prosiect ar yr amgylchedd hanesyddol, yn bennaf asedau treftadaeth dynodedig a rhai nad ydynt wedi'u dynodi, ac olion archaeolegol claddedig nad ydynt yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd a'u lleoliad.

3.14.2. Effeithiau Posib

194. Yn gryno, gall nifer o effeithiau penodol ar dreftadaeth ddigwydd yn sgil y Prosiect. Yn bennaf, gellir cael gwared ar olion archaeolegol posibl yn rhannol neu'n llwyr yn sgil gwaith cloddio yn ystod y gwaith adeiladu, lle gellir effeithio'n anuniongyrchol ar nifer o asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi oherwydd newid yn eu gosodiad yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.
195. Ar hyn o bryd, mae'r ystyriaethau treftadaeth wedi bwydo i broses ddylunio'r prosiect. HDD yw'r opsiwn dewisol i wneud golwg y tir, i leihau'r angen am agor ffosydd, tra bod lleoliad golwg y tir

is-orsaf wedi'i leoli yn y fath le yn y tirlun i'w wneud mor niwtral yn weledol ag sy'n bosibl, gyda golygfeydd prin ohono o'r asedau treftadaeth dynodedig. Yn yr un modd, mae'r llwybr a ddewiswyd ar gyfer y llwybr cebl ar y tir yn defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd presennol cymaint ag sy'n rhesymol bosibl, yn rhannol oherwydd bod gan y lleoliad hwn botensial archaeolegol llai na phetawn ni wedi'i leoli yng nghaeau bugeiliol agored yr ynys. Heblaw hyn, mae'r Is-orsaf Cysylltiad Grid yn Orthios wedi'i leoli ar hen safle gwaith Alwminiwm Môn. Nid oes effaith canfyddedig i leoliad asedau treftadaeth yn yr ardal hon, ac mae ganddi llai o botensial am olion archaeolegol, yn sgil y gwaith datblygu blaenorol.

196. Ar y cam hwn o'r Prosiect, gwneir ymrwymiad i ymgymryd ag arolwg geoffisegol o'r Prosiect i fod yn sail pellach i Menter Môn ac i rhanddeiliaid ar botensial archaeolegol y Prosiect. Ymgwymerir â'r gwaith hwn cyn gwneud penderfyniad ar y cais, i fwydo'r broses gwneud penderfyniadau. Yn dilyn yr arolwg geoffisegol, gellir treialu agor ffosydd mewn mannau o botensial uchel yn dilyn ymgynghoriad â phrif rhanddeiliaid.

3.15. PENNOD 21: SŴN A DIRGRYNIAD

3.15.1. Yr Amgylchedd Presennol

197. I fod yn sail i'r asesiad ar effaith sŵn a dirgryniad, ymgwymerwyd ag arolwg sylfaenol o sŵn i fesur yr amgylchedd sŵn presennol yn yng nghyffiniau ardal ar y tir y prosiect. Ymgwymerwyd â gweithgaredd modelu sŵn i fod yn sail i sawl asesiad dilynol er mwyn pennu unrhyw effeithiau posibl mewn perthynas â gwaith adeiladu a gweithredu'r Prosiect yn lleoliad y derbynnydd, a gytunwyd arno mewn ymgynghoriad â Chyngor Sir Ynys Môn.
198. Adnabwyd effeithiau posibl yn codi o waith adeiladu mewn nifer bach o leoliadau ar hyd y llwybr cebl ar y tir. Mae'r mesurau lliniaru a ddarparwyd mewn lle a rhagwelir na fydd y Prosiect yn cael effeithiau sylweddol mewn perthynas â sŵn.
199. Ni aseswyd effeithiau sy'n gysylltiedig ag agweddau allan yn y môr y Prosiect ymhellach, gan yr ystyriwyd bod posibl prin am effeithiau ar y tir.
200. Cyflwynir gyfrifiadau yn ystod y dydd, gyda'r nos ac yng nghanol nos ar gyfer derbynwyr is-orsaf y lanfa a derbynwyr is-orsaf y grid sydd agosaf at y gwaith HDD gan mae'n bosibl y bydd gofyn cynnal gweithgareddau adeiladu dros raglen 24 awr/7 diwrnod yr wythnos yn ystod y gwaith hwn.
201. Mae'r asesiad ar sŵn gan waith adeiladu yn seiliedig ar ragdybiau'r sefyllfa waethaf bosibl. Dylid nodi y bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau adeiladu swnllyd yn y llwybr cebl ar y tir o hyd cymharol fyr gan fod y gwaith yn digwydd ar hyd y llwybr cebl ar y tir mewn adrannau, yn hytrach na gwaith yn digwydd ar draws yr ardal ar y tir am hyd y gwaith adeiladu.

3.15.2. Effeithiau Posib

202. Gyda'r mesurau lliniaru sŵn adeiladu mewn lle, rhagwelir y bydd yr effeithiau dibwys yn fwyaf amlwg yn ystod y gwaith adeiladu, gweithredu a dadgomisiynur'r Prosiect. Canfuwyd na fydd gan y lefelau sŵn o'r gweithgareddau adeiladu arfaethedig ar hyd coridor/llwybr y cebl effaith.

203. Gadawyd yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag agweddau allan yn y môr y prosiect allan o'r asesiad, gan yr ystyriwyd bod posibl prin am effeithiau ar dderbynyddion ar y tir.
204. Cyflwynir cyfrifiadau yn ystod y dydd, gyda'r nos ac yng nghanol nos hefyd i dderbynwyr is-orsaf y lanfaa derbynwyr is-orsaf y grid sydd agosaf at y gwaith croesi heb ffosydd gan mae'n bosibl y bydd gofyn cynnal gweithgareddau adeiladu dros raglen 24 awr/7 diwrnod yr wythnos yn ystod y gweithrediadau croesi heb ffosydd.
205. Mae'r asesiad ar sŵn gan waith adeiladu yn seiliedig ar ragdybiau'r sefyllfa waethaf bosibl. Dylid nodi y bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau adeiladu swnllyd yn y llwybr cebl ar y tir sydd gyferbyn â bob derbynnydd priodol o hyd gymharol byr gan fod y gwaith gweithredol yn digwydd ar hyd y llwybr cebl ar y tir mewn adrannau, yn hytrach na gwaith yn digwydd ar draws yr ardal ar y tir am hyd y gwaith adeiladu.
206. O ystyried bod y llifoedd traffig rhagweledig sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu'r Prosiect ymhell o dan y trothwyon perthnasol, ni ddisgwylir y byddai traffig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phrosiectau cronol yn cyflwyno effeithiau sŵn sylweddol. Heblaw hynny, bydd y Prosiect yn cynhyrchu'r mwyaf o draffig yn y cam adeiladu, a fydd dros dro, ac felly byddai'r potensial am unrhyw effeithiau sylweddol yn digwydd yn gyfyngedig i hyd gymharol fyr.

3.16. PENNOD 22: ANSAWDD AER

3.16.1. Yr Amgylchedd Presennol

207. Gwnaethpwyd asesiad desg i sefydlu'r lefelau llygredd presennol gan ddefnyddio data monitro ansawdd aer o'r ardal astudio a gasglwyd gan Awdurdod Cyfunol Gogledd Cymru, yn ogystal â mapiau llygredd a ddarparwyd gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Ni ystyriwyd bod arolygon sylfaenol monitro ansawdd aer safleoedd penodol yn ofyniad i'r prosiect, oherwydd ei faint, natur wledig yr ardal o gwmpas a'r nifer o dderbynyddion sensitif yng nghyffiniau'r gwaith. Darparwyd data monitro dyddodiad llwch a gasglwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn i'w ddefnyddio yn yr asesiad sylfaenol.

3.16.2. Effeithiau Posib

208. Ymgwymerwyd ag asesiad o effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â llwch ac allyriadau mater gronynnol y cam adeiladu yn unol â'r cyfarwyddyd ansawdd aer diweddaraf.
209. Gadawyd yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag agweddau allan yn y môr y prosiect allan o'r asesiad, gan yr ystyriwyd bod posibl prin am effeithiau negyddol i ansawdd yr aer ar y tir.
210. Yn unol â chyfarwyddyd ansawdd aer, adnabuwyd cyfres o fesurau lliniaru arferorau (megis lleithio'r trac rhedeg yn ystod cyfnodau sych i leihau'r llwch a gynhyrchir), sydd mewn cyfrannedd â'r lefel o risg llwch y gweithgareddau adeiladu. Drwy roi'r mesurau lliniaru ar waith, gellir ystyried effeithiau llwch i fod yn dibwys a chronol gyda phrosiectau perthnasol eraill hefyd yn cael eu hasesu yn ddibwys.
211. O ystyried bod y llifoedd traffig rhagweledig sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu'r Prosiect ymhell o dan y trothwyon perthnasol, ni ddisgwylir y byddai traffig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phrosiectau cronol yn cyflwyno effeithiau ansawdd aer sylweddol.

3.17. PENNOD 23: TRAFFIG A THRAFNIDIAETH

3.17.1. Yr Amgylchedd Presennol

212. Mae nodweddiad yr amgylchedd presennol wedi'i seilio ar nifer o ffynonellau, yn cynnwys astudiaethau desg, data cyfrif data gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT), arolygon traffig safleoedd penodol a data gwrthdaro anafiadau personol o ddata ffynhonnell agored.
213. Mae'r asesiad traffig a thrafnidiaeth i'r prosiect yn seiliedig ar ragolygon o lefelau cefndirol traffig i 2021, fel y dyddiad dechrau adeiladwaith realistig at ddiben effeithiau amgylcheddol.

3.17.2. Effeithiau Posib

214. Mae cyfanswm o 13 o gysylltiadau'r ffordd fawr yn yr ardal astudio traffig a thrafnidiaeth wedi'u hasesu ar effeithiau datgysylltedd, amwynderau cerddwyr, diogelwch y ffordd ac oedi gyrrwyr. Trwy gymhwyso'r mesurau lliniaru hyn, rhagwelir i'r prosiect gael effeithiau niweidiol dim mwy sylweddol na chymedrol mewn cysylltiad â thraffig a thrafnidiaeth. Mae effaith niweidiol cymedrol wedi'i adnabod yn ystod y cam adeiladu yn unig ar gyfer oedi gyrrwyr (cau lonydd) lle na ellir cynnal mynediad uniongyrchol i eiddo a fyddai o fewn y lonydd wedi cau.
215. Bydd y Cynllun Rheoli Traffig (TMP) a'r Cynllun Teithio (TP) yn cynnwys ymrwymadau penodol i reoli'r symudiadau Cerbydau Nwyddau Trymion a thraffig cyflogaion yn cael eu datblygu i'r Prosiect.

3.18. PENNOD 24: EFFAITH AR FORWEDD, TIRWEDD A'R OLYGFA

3.18.1. Yr Amgylchedd Presennol

216. Ymgwymerwyd yr asesiad hwn ar faterion morwedd, tirwedd a'r olygfa allweddol a adnabuwyd a chytunwyd arnynt mewn ymgynghoriad â CNC a Chyngor Sir Ynys Môn ac mae wedi'i seilio ar asesiad desg, arolygu maes a chofnodi gan ddilyn cyfarwyddyd arfer dda.
217. Mae'r Ardal Astudio yn ymestyn 15 km o MDZ, gydag Ardal Astudio fwy manwl o 3 km o gwmpas bob safle is-orsaf. Mae'r rhain wedi'u pennu gan ddefnyddio barn broffesiynol i gyd-weld â CNC a Chyngor Sir Ynys Môn.
218. Mae dynodiadau morwedd a thirwedd yn bwysig yng nghyd-destun y SLVIA o ran effeithiau posibl y Prosiect ar werth y morwedd/tirwedd ac amwynder gweledol yr ardaloedd dynoedig yn yr Ardal Astudio ac mae nifer o ddynodiadau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae manylion y dynodiadau hyn yn cynnwys; Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Sir Ynys Môn; Arfordir Treftadaeth Mynydd y Tŵr; Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Mechell (SLA); Parc a Gerddi Cofrestredig; ac Ardaloedd Cadwraeth yng Nghaergybi a Bodedern.
219. Yn unol â'r dull gweithredu ar gyfer Adareg Forol a Mamaliaid Morol, defnyddiwyd y dull SoCG a TWG i reoli'r prif faterion yn ymwneud â SLVIA, gan ddefnyddio arbenigwyr technegol o CNC, Cyngor Sir Ynys Môn a SLR Consulting, ar ran Menter Môn.

3.18.2. Effeithiau Posib

220. Ystyrir effeithiau'r cam adeiladu i forwedd a thirwedd i fod yn gymharol fychain ac o hyd byr, gyda'r gwaith adfer tir a nodweddion tir wedi'u haflonyddu wedi i'r gwaith gael ei gwblhau. Fel y cyfryw, ni ystyrir effeithiau'r cam adeiladu mewn mwy o fanylder.
221. O ran morwedd, adnabuwyd effeithiau sylweddol (effeithiau cymedrol i sylweddol) ar gyfer Ardaloedd o Nodweddion Morwedd ym Mynydd y Tŵr, Rhoscolyn a Gorllewin Ynys Môn oherwydd eu lleoliadau anghysbell a byddai cyflwyno elfennau gan ddyn yn amlwg. Rhagwelir na fyddai cyfadrannau ar y tir y Prosiect, yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar nodwedd y môr neu'r tir ar gyfer unrhyw rai o'r 14 SCA a LCA a adnabuwyd yn yr asesiad sylfaenol, yn cynnwys SCA Rhoscolyn a Chaergybi y byddai'r is-orsafoedd wedi'u lleoli ynddynt oherwydd lleoliadau a dyluniadau ystyriol.
222. Adnabuwyd effaith sylweddol yn lleol o arwyddocâd niweidiol cymedrol ar gyfer dynodiad AHNE Ynys Môn a rhagwelir effaith niweidiol sylweddol i ardal dynodiad Arfordir Treftadaeth Ynys Gybi sydd agosaf a y prosiect (Bae'r Henborth). Fodd bynnag, ni ragwelir effaith sylweddol gyffredinol ar gyfer yr AHNE cyfan nac ardaloedd eraill o'r Arfordir Treftadaeth yn yr Ardal Astudio.
223. Rhagwelir effeithiau niweidiol sylweddol i gymedrol ar eiddo preswyl gwasgaredig ac ar ddefnyddwyr ffyrdd bychain yng ngogledd gorllewin Ynys Gybi. Caiff effeithiau ar ddefnyddwyr hamddenol yn y rhan agosaf o'r arfordir, ymweld â Llwybr Arfordirol Ynys Môn/Llwybr Arfordirol Cymru, llwybrau seiclo, Canolfan Ymwelwyr RSBP yr Ynys Lawd ac ar y traeth ym Mae'r Henborth i gyd eu hasesu fel niwed cymedrol/sylweddol.
224. Er mwyn lliniaru'r effeithiau ar dderbynyddion i ogledd orllewin Mynydd y Tŵ, ni fydd dyfeisiau amlwg yn weledol yn cael eu gosod yn is-barthau dangosol 1 - 3 a'r rhannau gogleddol o is-barthau dangosol 4 a 8 (sy'n gorchuddio'r ardaloedd melyn a phorffor ar **Ffigwr 4-1 (Cyfrol II o'r Datganiad Amgylcheddol)**). Byddai lleiafswm pellter o 1 km yn cael ei gadw o'r arfordir i ddyfeisiau amlwg yn weledol a bydd elfennau arnofio yn cael eu lleihau mewn man arall o fewn is-barthau i sicrhau bod cyfansoddiad yr elfenna yn y môr mor syml â phosibl. Rhoddir ystyriaeth bellach i liw y dyfeisiau, goleuadau llywio a ffurfweddïad y strwythur yn ystod y cam dylunio manwl.
225. Mae gan y Prosiect hyd oes o 37 mlynedd ac yn dilyn dadgomisiynu, byddai'r dyfeisiau a'r strwythurau yn cael eu tynnu, gan wrthdroi'r effeithiau posibl a adnabuwyd yn SLVIA.

3.19. PENNOD 25: CYMDEITHASOL-ECONOMAIDD, TWRISTIAETH A HAMDDEN

3.19.1. Yr Amgylchedd Presennol

226. Mae'r gwaith nodweddïad ac asesu effaith sylfaenol a gynhaliwyd fel rhan o **Bennod 25, Cymdeithasol-Economaidd, Twristiaeth a Hamdden** yn seiliedig ar arfer orau a'r data gorau sydd ar gael ac mae wedi ystyried yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd posibl y Prosiect ar lefel leol (Ynys Môn), rhanbarthol (Gogledd Cymru) a chenedlaethol (Cymru).
227. O ystyried bod y datblygiad ynni llanw ar y raddfa a gynigwyd gan y Prosiect yn gymharol newydd a bod y sail economaidd creiddiol dan adolygiad yn barhaus, gellir defnyddio rhai cyfeiriadau i ddarparu rhagfynegiad terfynol o ganlyniadau cymdeithasol-economaidd posibl y

Prosiect. I fynd i'r afael â'r bwlch hwn yn y dystiolaeth, defnyddiwyd gwybodaeth storïol uniongyrchol gan ardaloedd eraill o weithgareddau datblygu ynni llanw ynghyd â nifer o ddata cyhoeddus ac astudiaethau cefnogol.

228. Aseswyd yr amgylchedd cymdeithasol-economaidd presennol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae datganiadau sylfaenol wedi'u creu ar gyfer y canlynol; Poblogaeth a Demograffeg; Cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA); Sgiliau, Hyfforddiant ac Addysg; Tai a Llety; Pysgodfeydd Masnachol; Llongau a Llywio; Twristiaeth; Hamdden; a Diwylliant Treftadaeth.

3.19.2. Effeithiau Posib

229. Mae gwaith adeiladu a gweithredu'r Prosiect hwn wedi'i asesu i ennyn effeithiau manteisiol cymedrol a sylweddol ar gymdeithasol-economaidd, twristiaeth a hamdden drwy wariant lleol cynyddol ledled Cymru ac i uwchsgilio'r gweithlu, datgarboneiddio, cryfhau 'trefniadau gwyrdd' yr ardal leol a darparu sicrwydd ynni i'r cyflenwad lleol, rhanbarthol a'r DU. Rhagwelir y caiff 400 o gyfleoedd gwaith eu creu yn ystod y cam gweithredol. Yn ogystal, mae Menter Môn yn cynnal asesiad yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.
230. O ran effeithiau cronol gyda phrosiectau eraill, mae'r asesiad yn awgrymu'n gryf bod datblygu dull gweithredu cyffredin, strategol i ddatblygu ynni llif llanw a phrosiectau ynni eraill yn yr ardal leol/rhanbarthol a chenedlaethol yn debygol o fod yn bwysig a buddiol.

4. CASGLIADAU

231. Ar gyfer pynciau ar y traeth ac yn y môr, cesglir yr asesiadau na fydd y Prosiect yn cyflwyno effeithiau sylweddol unwaith y bydd lliniariadau priodol wedi'u rhoi ar waith, ac eithrio traffig a thrafnidiaeth, mamaliaid morol, ecoleg ar y tir, SLVIA ac archaeoleg ar y tir a threftadaeth ddiwylliannol, dan y sefyllfa waethaf bosib ragofalus. Dylid nodi bod yr effeithiau gweddilliol sylweddol yn bennaf yn effeithiau lleol, dros dro, y gellir eu gwrthdroi ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu neu effeithiau a fydd yn lleihau i fod yn ddibwys dros amser.
232. Mae effaith niweidiol cymedrol wedi'i adnabod yn ystod y gwaith adeiladu ym **Mhennod 23, Traffig a Thrafnidiaeth (Cyfrol I o'r Datganiad Amgylcheddol)** ar gyfer oedi gyrwyr (cau lonydd) lle na ellir cynnal mynediad uniongyrchol, yn arbennig yng Nghysylltiad 6, 11 a Mill Road, i'r tri eiddo a fyddai o fewn y trefniadau cau lonydd hynny.
233. Adnabuwyd effeithiau niweidiol cymedrol yn ystod y cam gweithredu ym **Mhennod 12, Mamaliaid Morol (Cyfrol I y Datganiad Amgylcheddol)** am risg gwrthdaro â thyrbinau gweithredol, i ddolffiniaid trwynbwl. Fel rhagofal, aseswyd hwn fel un a allai fod yn andwyol bychan i ganolog. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer fechan o unigolion yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'r risg posib yn debygol o fod yn is, gan nad yw dolffiniaid trwynbwl wedi cael eu cofnodi yn yr MDZ ac maent yn fwy tebygol o symud ar hyd yr arfordir na thrwy ardal arâe yr MDZ. Ymgwymerir ag ymgynghoriad i gytuno ar liniariad a monitro trwy gydol datblygiadau dyluniad terfynol y prosiect i ganiatáu'r arferion gorau sydd ar gael i gael eu gweithredu.
234. Adnabuwyd effeithiau niweidiol cymedrol yn ystod y cam adeiladu ym **Mhennod 19, Ecoleg Ar y Tir (Cyfrol I y Datganiad Amgylcheddol)** am risg o golli cynefin ac aflonyddu nodweddion y safleoedd cadwraeth natur dynodedig statudol. Mewn sefyllfa waethaf bosibl lle nad yw HDD ar olwg y tir yn bosibl am resymau technegol / peirianeg, bydd gweithgareddau ar olwg y tir yn cynnwys agor ffosydd i'r cwbl drwy ran cul arfordirol o ddynodiad SSSI, SPA, SAC Ynys Gybi. Bydd hyn yn cynnwys aflonyddu a cholli cynefinoedd dros dro o hyd at 0.07% o'r safle dynodedig. Yn dilyn gweithredu'r lliniariadau yn cynnwys adfer cynefinoedd cysylltiedig, bydd disgwyl i'r cynefinoedd dynodedig a aflonyddwyd arnynt dros dro ger yr arfordir adfer dros nifer o dymhorau a chânt eu monitro trwy arolygon ôl-adeiladu mewn ymgynghoriad o'r canlyniadau â CNC. Felly, bydd yr effaith i SSSI/SPA/SAC Glannau Ynys Gybi yn cael ei lleihau i arwyddocâd cymedrol niweidiol petai'r ceblau'n cael eu gosod mewn ffosydd yn y tir. Pe defnyddir technoleg HDD, ni fyd effaith i SSSI/SPA/SAC Glannau Ynys Gybi.
235. Mae rhai effeithiau sylweddol posibl wedi'u hadnabod ym **Mhennod 24, Morwedd, Tirwedd ac Asesiad Effaith Weledol (Cyfrol I y Datganiad Amgylcheddol)**, o fewn graddau lleol cydrannau penodol y prosiect hwn. Mae'r SLVIA wedi dangos y byddai'r effeithiau sylweddol yn digwydd mewn mannau cymharol brin yn ardal yr astudiaeth. Ni fyddai'r dyfeisiau ynni llanw yn dod yn nodwedd derfynol o'r nodweddion morol na thirlun a byddai'n cynnwys cydrannau bychain yn y golygfeydd agored y gellid eu gweld dros Fôr Iwerddon.
236. Adnabuwyd effeithiau niweidiol cymedrol yn ystod y cam gweithredu ym **Mhennod 20, Archaeoleg Ar y Tir a Threftadaeth Ddiwylliannol (Cyfrol I y Datganiad Amgylcheddol)** am effeithiau anuniongyrchol i leoliad nodweddion treftadaeth oherwydd isadeiledd goleudy Ynys Lawd yn y môr.

237. Bydd dethol safleoedd yn sensitif ochr yn ochr â lliniariadau, fel sy'n briodol, yn cyflwyno prosiect sy'n osgoi'r rhan helaeth o'r effeithiau posibl a aseswyd yn llwyr. Mae'r effeithiau niweidiol posibl a adnabuwyd trwy'r asesiad sefyllfa waethaf bosibl (bach i gymedrol) o arwyddocâd niweidiol ac maent dros dro ac yn gyfyngedig yn ddaearyddol.
238. Mae **Pennod 25, Cymdeithasol-Economaidd, Twristiaeth a Hamdden (Cyfrol I** o'r Datganiad Amgylcheddol) yn dangos nifer o effeithiau buddiol a gyflwynir yn sgil y prosiect, yn cynnwys cyflogaeth uniongyrchol, gwariant uniongyrchol yn y cyffiniau, cyfleoedd hyfforddiant a datblygu'r gadwyn gyflenwi leol.

5. CYSYLLTWCH Â NI

239. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r materion sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol (EIA) y Prosiect. Am wybodaeth fanylach, mae Datganiad Amgylcheddol Prosiect Morlais ar gael yn:

<https://www.mentermon.com/>

240. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch proses yr EIA, mae croeso ichi gysylltu.

- Ewch i wefan y prosiect: <http://www.morlaisenergy.com/> a chofrestru eich diddordeb yn y prosiect er mwyn cael y newyddion diweddaraf yn ei gylch.
- Anfonwch neges e-bost atom: info@morlaisenergy.com
- Ysgrifennwch atom: Morlais, Neuadd y Dref, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LR
- Ffoniwch ni: +44 (0) 1248 725 713

241. This NTS is also available in English/ Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg.